Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
Is-adran Dosbarthu'r Loteri Genedlaethol a Chymunedau

Cyllid y Loteri Genedlaethol

Dogfen Penderfyniad

Gorffennaf 2003

Cynnwys

		tudalen
Rhagair		3
Crynodeb Gweithredol		5
1	Cefndir a chyd-destun polisi	9
	1.1 Pam adolygu'r Loteri?	9
	1.4 Amrediad yr adolygiad	9
	1.6 Cefndir	10
	1.9 Dysgu o brofiad tramor	11
	1.14 Incwm y Loteri	12
	1.21 Barn pobl am y Loteri	13
2	Beth ddylai'r Loteri ei ariannu?	15
	2.3 Themáu allweddol i'r dyfodol	15
	2.7 Ychwanegoldeb	16
	2.10 Pa fathau newydd o grantiau a ddylai fod ar gael?	17
	2.11 Cyllid gan y dosbarthwr newydd – grantiau agored	17
	2.13 Cyllid gan y dosbarthwr newydd – ariannu rhaglen genedlaethol	18
	2.15 Cyllid gan y dosbarthwr newydd – grantiau trawsnewid	18
	2.16 Cronfa Pobl Ifanc	18
	2.17 Cronfa Olympaidd	18
	2.18 Ehangu Dyfarniadau i Bawb (Lloegr)	19
	2.19 Micro-grantiau	19
3	Mireinio'r dosbarthwyr	20
	3.3 Un dosbarthwr cymunedol	20
	3.7 Beth fydd swyddogaeth y dosbarthwr newydd	22
	3.15 Pwerau Comisiwn y Mileniwm	22
	3.16 Sut i drafod materion sy'n trawstorri	23
	3.19 Fforwm Loteri newydd	23

4	Creu hunaniaeth unigol i'r Loteri	25
	4.1 Gwybod beth a ariannwyd gan y Loteri	25
	4.4 Cyd-frandio	25
	4.7 Cyd-Uned Hybu	26
	4.9 Diwrnod y Loteri Genedlaethol	26
	4.13 Cynnwys y cyhoedd yn fwyfwy wrth flaenoriaethu	27
	4.16 Cynnwys y cyhoedd yn fwyfwy wrth benderfynu	27
	4.20 Datganoli dosbarthiad y Loteri yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon	28
	4.23 Dirprwyo Penderfyniadau	29
	4.25 Ei gwneud yn haws ymgeisio am gyllid	29
	4.28 Safoni ffurflenni cais	30
	4.29 Safonau cyffredin gwasanaeth	30
	4.30 Trefn gwyno gyffredin	30
5	Bod yn fwy effeithiol	31
	5.1 Lieihau arian sy'n weddill	31
	5.5 Gorchmynion Ariannol Adolygedig	31
	5.7 Canllaw rheolaeth ar arian sy'n weddill	32
	5.9 Llog ar arian y Loteri sy'n weddill	32
	5.10 Mesurau eraill posibl	32
	5.12 Dyfeisgarwch a rheoli risg	33
	5.14 Rheoli prosiectau cyfalaf mawrion	33
	5.15 Dysgu o brofiad	33
	5.20 Swyddogaeth y dosbarthwr newydd ar brosiectau cyfalaf mawrion	34
	5.24 Prosiectau cyfalaf llai	35
6	Ymgynghoriad a thabl cynigion polisi	36
	Atodiad A: Asesiad o'r Effaith ar Reoleiddio	39

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Llwyddiant mawr fu hanes y Loteri a drawsnewidiodd fywydau miloedd o bobl yn y DU. Codwyd dros £14 biliwn at achosion da ers 1994 gan drawsnewid cymaint o gymunedau, trefi a dinasoedd. Cawsom ein hysybrydoli gymaint gan brosiectau megis Stadiwm y Mileniwn yng Nghaerdydd a Phont y Mileniwn yn Gateshead ag a gawsom wrth wylio'n athletwyr/wragedd yn cyflawni llwyddiannau nas gwelwyd eu bath o'r blaen yn y gêmau Olympaidd yn Sydney yn 2000. Cynorthwywyd dros 50,000 elusen a grŵp gwirfoddol yn y DU gan arian y Loteri.

Rwyf am adeiladu ar y llwyddiant ysgubol hwnnnw ar drothwy degfed penblwydd y Loteri y flwyddyn nesaf. Wrth gwrs, mae'r Loteri'n creu miliwnyddion. Ond mae'n gwneud llawer rhagor na hynny. Dywedwyd nad chwarae'r Loteri hwyrach yw'r ffordd orau o gamblo, na'r ffordd orau o gyfrannu at achosion da, ond eto mae'n ffordd arbennig iawn o wneud y ddau beth. Y neges a atseiniodd yn glir o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gennym oedd bod pobl yn ystyried pres y Loteri yn bres cyhoeddus. Mae'n wahanol i bres a godir trwy drethiant. Ac mae pobl am weld ei wario ar bethau gwahanol na all trethiant dalu amdanynt. Oherwydd eu bod yn teimlo perchnogaeth ar bres y Loteri, maent am iddo fod yn llawer mwy agored, yn fwy cyrraeddadwy ac yn bennaf oll, maent am gael eu hysbrydoli ganddo.

Bydd fy nghynigion i yn ei gwneud hi'n llawer haws ceisio am bres y Loteri a'i ddefnyddio. Bydd dosbarthwry yn llawer mwy tryloyw ynghylch eu penderfyniadau a bydd yn rhaid iddynt fod yn atebol. Yn ychwanegol at hynny, bydd yn rhaid iddynt dalu llawer mwy o sylw i'r modd y mae'r cyhoedd am i bres y Loteri gael ei wario. Ac ni fydd hawl ganddynt bellach gronni pres anferthol yn y banc y gellid yn hawdd ei wario yn rhywle arall.

Am fod pres y Loteri yn cyrraedd y mannau na all trethi eraill eu cyrraedd, rhaid i ni wella ei allu i drawsnewid ac i ysbrydoli. Mae hyn yn wir am brosiectau cenedlaethol megis yr Eden Project, lle mae'r economi leol yn ffynnu o ganlyniad iddo, a chafodd pobl eu synnu gan y ganolfan ei hun. Mae hefyd yn wir yn lleol, lle gwellodd bywydau pobl yn anfesuradwy gan glwb chwaraeon newydd neu gan brosiect celf. Mae'r Loteri yn darparu cyfle unigryw i ddyfeisgarwch ffynnu a rhaid i ni beidio ag ofni cymryd mantais ohono.

Ni fydd pawb yn cefnogi pob grant Loteri a ddyfernir. Bydd yn well gan un person roi grant i gwmni dawns crwydrol, un arall – er mwyn adfer parc lleol, y trydydd – hosbis i blant, y pedwerydd – i gyllido hyfforddiant athletwr/aig Olympaidd, y pumed – eiriolaeth i blant anghenus. Mae'r Loteri yn cyllido'r rhain i gyd a mwy ohonynt ac mae'n anhepgor y bydd rhai grantiau yn fwy poblogaidd na'i gilydd. Yn wir, bydd ambell grant yn un dadleuol.

Rydym yn byw mewn cymdeithas amlochrog a dylai amrediad a natur y prosiectau a gyllidir gan y Loteri adlewyrchu'r gymdeithas honno yn wir, yn fy marn i. Mae'n rhaid i ni ymateb i flaenoriaethau pobl ond nid ydym am gael Loteri lastwraidd lle nad oes neb yn barod i arbrofi pethau newydd a chymryd risg.

Datblygodd y Loteri Genedlaethol yn gyflym yn sefydliad cenedlaethol. Bydd yn parhau i ffynnu drwy gadw ei gafael ar ein dychymyg, drwy gynnwys pobl yn fwyfwy ynddi a thrwy fod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth i bawb ohonom

TESSA JOWELL

Crynodeb Gweithredol

1. Beth ddylai'r Loteri ei ariannu?

Dangosodd ymgynghori inni fod dymuniad i gyllid y Loteri wneud gwahaniaeth, dylai fod yn wahanol i wariant cyhoeddus y brif ffrwd, a dylai fod yn sensitif i anghenion a diddordebau llu cymunedau'r deyrnas.

Bydd cyllid y Loteri felly'n canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Bydd yn gynyddol agored, yn gyrraeddadwy gan gynnwys y cyhoedd ynddi
- Bydd yn trawsnewid ac yn ysbrydoli yn lleol ac yn genedlaethol
- Bydd yn ddyfeisgar wrth feddwl, wrth weithredu ac wrth gynnwys ymdrechion gwirfoddol

Byddwn yn amddiffyn egwyddor 'ychwanegoldeb', hynny yw, ni fydd caniatâd i gyllid y Loteri gymryd lle cyllid a fyddai fel arfer yn ddyletswydd gwariant prif ffrwd y Llywodraeth. (para 2.7)

2. Y cyhoedd yn gynyddol yn cymryd rhan

Dylai chwaraewyr y Loteri ym mhobman deimlo y gallant ddylanwadu ar ble bydd yr arian at achosion da yn cyrraedd ei ben draw. Dylai'r broses ymgeisio am arian y Loteri fod yn hawdd, yn uniongyrchol ac yn ddioedi. Byddwn yn adolygu'r Gorchmynion Polisi er mwyn sicrhau bod dosbarthwyr yn adlewyrchu blaenoriaethau'r cyhoedd ar sut i wario'r arian at achosion da, yn ceisio symlhau'r broses ymgeisio, ac yn gwneud y system grantiau yn fwy agored a thryloyw:

- Bydd pob dosbarthwr yn ymestyn eu gwaith ar gynnwys y cyhoedd mewn penderfyniadau ar themâu cyllid y Loteri a sut y caiff arian y Loteri ei wario yn lleol (para 4.13)
- Byddwn yn gofyn i ddosbarthwyr wneud mwy o waith gyda'r cyfryngau – y wasg, y radio a'r teledu – i archwilio lle y gellir ystyried ceisiadau llwybr-cyflym i'r Loteri, lle gall y cyhoedd, neu chwaraewyr y Loteri, gael cyfle i benderfynu rhwng un prosiect â'r llall sy'n cystadlu â'i gilydd. (para 4.17)
- Caiff ymgeisio am bres y Loteri ei wneud yn haws drwy safoni ffurflenni cais y Loteri yn fwy fesul dosbarthwr, nes iddynt ymddangos yr un fath eu gwedd, eu lluniad a'u terminoleg. (para 4.28)
- Bydd dosbarthwyr yn mabwysiadu cyd-siarter gofal cwsmeriaid a fydd ar gael yn yr holl becynnau ymgeisio, i sicrhau bod y sawl sy'n ymgeisio am bres y Loteri yn derbyn y gwasanaeth gorau posibl. (para 4.29)
- Bydd dosbarthwyr yn gosod strwythur cwynion yn ei le a fydd yn cynnig adolygiad annibynnol allanol, tebyg i adolygiad ombwdsmon. (para 4.30)

3. Ymgyrhaeddiad

Byddwn yn dal i gefnogi tri achos da sef y celfyddydau, ein treftadaeth a chwaraeon ac yn cyflwyno tri math newydd o gyllid Loteri:

- **Grantiau agored** – rhaglen yn ôl y gofyn i fudiadau gwirfoddol a chymunedol yn debyg i'r rhai a gynigir ar hyn o bryd gan y Gronfa Gymunedol. Ni fydd canran y cyllid yn y rhaglen hon yn is nag a warantir ar hyn o bryd. (para 2.11)

cyllid rhaglen genedlaethol – tebyg i raglenni'r Gronfa Cyfleoedd Newydd (NOF), lle diffinir canlyniadau penodol ar y cyd â'r Llywodraeth ac y gwahoddir mudiadau i ymgeisio am arian, neu fe'i rhoddir er mwyn cyflawni'r canlyniadau hynny (para 2.13)

grantiau trawsnewid – tuag at gyllido prosiectau mawrion cenedlaethol arwyddocaol. (para 2.15)

Cronfa Pobl Ifanc i'w sefydlu ymhen y flwyddyn, gyda chyllideb o £200 miliwn o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd (para 2.16)

Dyfarniadau i Bawb (Lloegr) – byddwn yn dyblu'r uchafswm yn y rhaglen o £5,000 i £10,000. (para 2.18)

Micro-grantiau – y byddwn yn gwneud peilot ohonynt i gychwyn mewn rhaglen ddyfarniadau £500 neu lai yn is-ranbarthau o Loegr, yn rhan o'r cynllun Dyfarniadau i Bawb (Lloegr) (para 2.19)

Byddwn hefyd yn cyflwyno ffrwd gyllid newydd:

Cronfa Olympaidd – drwy ddeddfu am gêmau Loteri arbennig newydd a ffrwd gyllid benodol er mwyn llwyfannu Gêmau Olympaidd a llwyddiannus a rhaglen ardderchog o ddiwylliant, treftadaeth a chwaraeon o'u cwmpas (para 2.17)

4. Mireinio'r Dosbarthwyr

Bydd dosbarthwr newydd yn gwneud swyddogaethau'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ac yn derbyn y cyfrifoldeb am alluogi Comisiwn y Mileniwn i gefnogi prosiectau mawrion adferol. Bydd y dosbarthwr new hwn yn rheoli 50% o bres y Loteri at achosion da, wr bydd yn gronfa drawsnewid, o grantiau bychain hyd at brosiectau cyfalafol mawrion. Bydd yn ddosbarthwr cymunedol gwirioneddol, gan gyllido prosiectau i ail-fywiogi ac adfer cymunedau.

- Bydd y dosbarthwr newydd yn gallu trafod cyllid nad yw'n gyllid Loteri, gan ddefnyddio ei allu i adeiladu gwir ddatblygiad cymunedol mewn partneriaeth gydag asiantaethau cyllido eraill (para 3.3)
- Bydd yn arwain y ffordd gan gyflwyno llawer o'r gwelliannau i ddosbarthiad cyllid y Loteri a gododd o'r Adolygiad, yn sefydlu ymarfer gorau, ac yn rhannu gwybodaeth gyda dosbarthwyr eraill. (para 3.7)
- Bydd yn darparu un ffynhonnell ar gyfer ymgeiswyr sydd yn ansicr ymhle i gael cyngor ac arweiniad a bydd yn enwi'r rhaglen grant fwyaf addas i'r ymgeisydd, gan gynnwys rhaglenni grantiau a ddarperir gan ddosbarthwyr eraill y Loteri. (para 3.8)
- Dyma lle bydd y drws cyntaf yn agor i ymgeiswyr sy'n teimlo nad yw eu prosiect yn gweddu'n dwt o fewn telerau'r dosbarthwyr eraill. (para 3.9)
- Byddwn yn deddfu i drosglwyddo asedion a chyfrifoldebau Comisiwn y Mileniwm i'r dosbarthwr newydd, ynghyd ag unrhyw weddill o gyllid y Comisiwn ac unrhyw hawliau o eiddo'r Comisiwn o 1 Ebrill 2006, pryd y diddymir y Comisiwn, neu'n gynharach. (para 3.15)

Bydd aml ddarpar-brosiect yn gallu cwrdd â chanllawiau mwy nag un cyllidwr – bydd llawer adeilad braf a adferir drwy gymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn gallu dod yn gyrchfan celfyddydau, a gall canolfan gymunedol a ariennir gan y Gronfa Gymunedol neu'r NOF gynnwys cyfleusterau chwaraeon. Byddwn yn annog prosiectau o'r fath sy'n ein helpu i gwrdd â nifer o amcanion o fewn un cynllun, a byddwn yn gosod trefniadau priodol yn eu lle.

- Bydd y dosbarthwr newydd yn cydlynu prosiectau mawrion trawstoriadol yn brif ganolfannau ardderchowgrwydd rheoli prosiectau mawrion, yn ogystal â bod yn gyllidwr ei hunan (para 3.17)
- Bydd cydweithio rhwng dosbarthwyr yn sicrhau rhannu ymarfer gorau a gellir gweithredu ffyrdd mwy effeithiol o weithio'n gyflym. Bydd grŵp anffurfiol presennol Prif Weithredwyr allweddol dosbarthwyr y Loteri yn cael mandad ffurfiol i ddwyn ymlaen mwy o gydweithio mewn Fforwm Loteri newydd. Yn ogystal bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cwrdd â Chadeiryddion dosbarthwyr y Loteri yn rheolaidd er mwyn sicrhau gyda'i gilydd bod y strategaeth hon yn gweithio. (para 3.19)
- Bydd y dosbarthywr newydd yn arwain ac yn datblygu proses gefnogol cyn-ymgeisio i bob ymgeisydd, a bydd safonau cyffredinol gwasanaeth yn bodoli ar draws dosbarthwyr y Loteri, gan gynnwys cyd-siarter gofal cwsmeriaid, proses annibynnol allanol o gwyno a datblygiad proses cyd-ymgeisio. (para 3.10)
- Bydd y dosbarthwr newydd yn arwain ac yn datblygu rhwydwaith er mwyn adeiladu cymhwyster mewn cymunedau ledled y DU ac er mwyn cynghori darpar-ymgeiswyr. (para 3.10)
- Er mwyn symleiddio strwythurau ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy'n rhaid iddynt ymgeisio i fwy nag un dosbarthwr ar gyfer yr un prosiect, bydd dosbarthwyr yn cychwyn Protocol Ymgeisiadau Traws-Ddosbarthwyr i fwy nag un Dosbarthwr. (para 3.22)

5. Gwell effeithlonrwydd

Mae amryw o bobl yn methu â dirnad bod dosbarthwyr Loteri yn casglu symiau mawr o arian sy'n aros heb gael eu danfon ymlaen i'r achosion da. Byddwn yn creu Gorchmynion Ariannol newydd, a'r bwriad fydd symud rhwystrau rhag trosglwyddo cyllid ynghynt i'r sawl sy'n ei dderbyn, a thrwy hynny gynyddu ymateboldeb y Loteri. (para 5.6)

Byddwn yn gosod canllawiau i holl ddosbarthwyr y Loteri ar sut i reoli arian eu Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF) er mwyn cyflymu ariannu prosiectau, a gwneud dosbarthwyr yn gyfrifol am osod targedau unigol tynn i lefelau'r arian sy'n weddill ganddynt. (para 5.7)

Mae'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu arholi rheolaeth yr arian sy'n weddill er mwyn rhoi gwybodaeth i'r broses hon. (para 5.8)

Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth i ddileu'r symbyliad gwrthnysig sydd i ddosbarthwyr i gadw gormod o arian sy'n weddill. (para 5.9)

Rydym yn bwriadu deddfu i greu pŵer wrth gefn i ostwng arian sy'n weddill lle mae'n ymddangos yn ormodol a'i ail-ddosbarthu at achosion da eraill yn ôl y cyfraddau arferol. (para 5.10)

6. Datganoli dosbarthiad Loteri yn Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon

Ein barn am y tro yw y dylem gadw strwythur y DU ar gyfer dosbarthu'r Loteri, ond y dylai'r lau gweinyddiaethau a ddatganolwyd yn Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon gael mwy o ddylanwad wrth osod blaenoriaethau penodol a strategaethau, gan ystyried anghenion a dymuniadau cymunedau lleol a darparwyr y gwasanaeth yno. Byddwn yn deddfu er mwyn cyflawni hyn os bydd angen (para 4.22)

7. Creu un hunaniaeth i'r Loteri

Mae holl bres y Loteri yn dibynnu ar y miliynau sy'n chwarae gêmau'r Loteri. Dylai pawb sy'n eu chwarae deimlo nid yn unig bod y Loteri yn rhoi cyfle iddynt ennill, ac efallai ennill y jacpot sy'n-newid-bywyd, ond bod cyfran go fawr o'u pres yn mynd at yr achosion da y maent yn eu cefnogi. Er mwyn llunio'r cyswllt rhwng y gêm a'r achosion da:

- Bydd pawb sy'n elwa yn arddangos logo unedig, gan roi proffil uchel iddo, fel y bo'n briodol i'r amrywiaeth mawr prosiectau sy'n derbyn help gan y Loteri. Bydd dosbarthwyr yn cydweithio gyda Camelot er mwyn datblygu dyluniau gan ddefnyddio logo'r bysedd croes. (para 4.5)
- Bydd y dosbarthwyr yn cydweithio drwy Uned Hybu ar y Cyd i amlygu prosiectau'r Loteri yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. (para 4.7)
- Byddwn yn creu Diwrnod y Loteri Genedlaethol pan ddyfernir gwobrau mawrion i chwaraewyr y Loteri a bydd mudiadau a elwodd o gyllid y Loteri yn agor eu drysau neu'n dathlu rywsut gyfraniad y Loteri iddynt. (para 4.9)

8. Cynyddu Dyfeisgarwch

Wrth graidd cyllid y Loteri, mae'r dyhead i fod yn wahanol, yn ddyfeisgar, hyd yn oed i gymryd risg. Mae cymryd risg yn golygu derbyn y gall pethau fynd o chwith. Ni fydd pob prosiect Loteri yn llwyddo. Ond mae uno pob prosiect mewn biwrocratiaeth yn yr ymgais i ddileu risg yn ddrud ac yn araf, a gall dagu dyfeisgarwch. Dylai rheolaeth risg fod yn gymesur â maint y prosiect a gyllidir, a barnu record y sawl sy'n ei dderbyn. Golyga hyn reolaeth risg fwy soffistigedig ar gyfer prosiectau mawr, a gostwng biwrocratiaeth ar ymgeiswyr grantiau bach.

Bydd prosesau Rheoli ar gyfer prosiectau mawr y Loteri yn gymesur â rhai Swyddogaeth y Llywodraeth ar Adolygiadau Mynediad Masnach. Byddwn yn symleiddio'r gofynion er mwyn annog rheolaeth ar gymryd risg gyda phrosiectau llai. Byddwn yn defnyddio nifer cyfyngedig o archwiliadau ar dderbynwyr dyfarniadau bychain i wirio lefelau camddefnyddio a gwerth am arian, ac yn lleihau gofynion ymhellach os dadleuir dros hynny. (para 5.24)

1. Cefndir a chyd-destun polisi

Pam adolygu'r Loteri?

1.1 Does dim os nac oni bai fod y Loteri Genedlaethol wedi gwella safon byw pobl ledled y Deyrnas Unedig. Codwyd dros £14 biliwn at achosion da a gwnaed dros 134,000 o ddyfarniadau hyd yn hyn. Mae prosiectau mawrion adferol yn derbyn yr holl sylw ond mae grantiau bychain hefyd wedi trawsnewid cymunedau.. Adeiladwyd dros 2,000 o neuaddau pentref. Helpodd y Gronfa Gymunedol yn unig fwy na 54,000 elusen a mudiad gwirfoddol yn y DU ers 1995. Mae cyllid celf y Loteri wedi helpu i brynu 14,000 offeryn cerdd i bobl ifanc, gan ei gwneud yn bosibl iddynt ymhel â cherddoriaeth ac yn 2002 helpodd y rhaglen *Summer Splash* tua 48,000 oedd rhwng 9-17 oed o stadau lle roedd nifer troseddau uchel gyda gweithgareddau chwaraeon a chelf, gan leihau troseddau ar y stryd o ganlyniad iddo. Trawsnewidiodd £320 miliwn Cronfa Treftadaeth y Loteri dros 200 o barciau mewn trefi ledled y DU.

1.2 Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gennym yn 1998 wedi gweithio'n dda wedi iddynt gael eu gosod yn eu lle yn "Loteri'r Bobol" yn 1997. Yn ogystal â brics a morter, mae'r Loteri nawr yn ariannu mwy o bobl i wneud ac i arwain pethau, yn eu cynorthwyo i beri i bethau ddigwydd neu i ofalu am bobl fregus. Llaciwyd y gwregys tynn a oedd yn cwmpasu'r pum prif achos da: gyda chymorth i wella cymdogaethau a dyfeisgarwch i fyw yn iach a gofal dioddefwyr cancr.

1.3 Ond ni all unrhyw sefydliad aros yn llwyddiannus heb iddo o bryd i'w gilydd ei astudio'i hun yn galed i weld ymhle a sut y gall wella. Saith mlynedd wedi i'r Loteri gychwyn ac mewn da bryd cyn cyfnod nesaf y drwydded yn 2009, mae hi'n amser priodol i gymryd stoc, i ddadansoddi beth sy'n gweithio'n dda a beth y gellir ei wella ac - efallai yn fwy pwysig na dim - i ystyried lle dylai'r Loteri anelu mynd yn y cyfnod sy'n arwain i 2009. Ac felly lansiwyd adolygiad y Loteri Genedlaethol y llynedd. Mae'r newidiadau mewn dwy ran: trwyddedu gweithredydd y Loteri a dosbarthu'r arian at achosion da. Mae'r papur hwn yn cynnwys cynigion sut i newid y dull y dosberthir arian y Loteri.

Amrediad yr adolygiad

1.4 Bydd rhai pethau yn aros yr un fath. Mae trwydded Camelot i weithredu'r Loteri Genedlaethol er enghraifft yn parhau hyd 2009. Ar yr ochr ddosbarthu, mae'r Llywodraeth wedi addo y bydd canran y Loteri o'r pres at achosion da sy'n mynd at gelf, chwaraeon, treftadaeth a'r sector wirfoddol yn sefyll yr un o leiaf â'u lefelau presennol hyd 2009.

1.5 Ar wahân i hynny, bwriad adolygu dosbarthiad y Loteri oedd bod yn agored ac yn bell-gyrhaeddol. Gosododd y papur a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2003[1] rai o'r materion gerbron a rhai o'r dewisiadau eang oedd angen eu taclo, ond nid ei fwriad erioed oedd bod yn rhagnodol. Derbyniwyd gennym dros 400 ymateb i'r papur ymgynghorol a bydd y rhain, ynghyd â rhagor o ymchwil ymagwedd a thrafodaethau gyda chynrychiolwyr sectorau penodol, gan gynnwys y sector wirfoddol a pheth gwaith gyda chwaraewyr y Loteri, wedi canfod y materion sydd yn achosi'r consýrn mwyaf cyffredinol, a bydd yn hysbysu datblygiad y cynigion hyn.

[1] "Adolygiad Cyllid Loteri: Papur ymgynghorol ar bolisi dosbarthu'r Loteri" sydd i'w gael ar wefan y DCMS www.culture.gov.uk.

Cefndir

1.6 Cyn taclo'r dyfodol mae'n werth edrych yn ôl i weld beth all y gorffennol a chymariaethau gyda llefydd eraill ei ddweud wrthym. Yn y wlad hon cynhaliwyd y Loteri gyntaf un yn 1569 yn ystod teyrnasiad y Frenhines Elizabeth I a pharhaodd loteris yn rheolaidd (er nad yn wythnosol) am dros 250 mlynedd. Aethant yn llai poblogaidd a cholli parch yn raddol, gan ddirwyn i ben yn gyfan gwbl yn 1826.

Yn ystod y 250 mlynedd hynny, darparodd loteris gyllid i brosiectau gan gynnwys yr Amgueddfa Brydeinig a Phont Westminster. Er iddynt ddirwyn i ben yn y DU, cynyddodd defnydd loteris yn ei fri yn ddull o godi arian ar gyfer gwaith cyhoeddus mewn mannau eraill. Erbyn 1978 pan gymeradwyodd Comisiwn Rothschild ar hapchwarae y dylid sefydlu Loteri Genedlaethol at achosion da i godi arian ar gyfer y celfyddydau, chwaraeon ac achosion da eraill, roedd gan bron 100 o wledydd loteris gwladol neu daleithiol gan gynnwys pob gwlad yn Ewrop heblaw'r DU.

1.7 Yn 1992 derbyniodd Papur Gwyn y Llywodraeth yn cynnig Loteri Genedlaethol gymeradwyaeth eang, a phasiwyd Deddf y Loteri Genedlaethol gyda chefnogaeth y pleidiau i gyd yn 1993. Sefydlodd y Ddeddf bum maes a fyddai'n gallu manteisio o bres y Loteri: y celfyddydau, chwaraeon, treftadaeth, elusennau a mudiadau gwirfoddol a phrosiectau i ddathlu cychwyn y Mileniwm newydd. Rhannwyd pres yn gyfartal rhwng y pum maes, ac fe'i dosbarthwyd gan unarddeg o ddosbarthwyr y Loteri, cynghorau celf a chwaraeon yn Lloegr, Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon a thri mudiad newydd; Cronfa Treftadaeth y Loteri, Bwrdd Cenedlaethol Elusennau'r Loteri (bellach Y Gronfa Gymunedol) a Chomisiwn y Mileniwm. Yn1998 sefydlodd y Llywodraeth chweched achos da, sef yr un dros iechyd, addysg a'r amgylchedd, a ddosbarthwyd gan y Gronfa Cyfleoedd Newydd (NOF) ac fe sefydlodd Waddoliad Cenedlaethol Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau (NESTA).

1.8 Erbyn diwedd Ebrill 2003 roedd y Loteri Genedlaethol wedi codi £14.34 biliwn (gan gynnwys llog) i'r achosion da. Hyd yn hyn, ar draws y DU gwariwyd £2.11 biliwn ar y celfyddydau, £1.95 biliwn ar chwaraeon, £2.29 biliwn ar dreftadaeth, £1.98 biliwn ar brosiectau i gefnogi'r Mileniwm, £2.0 biliwn ar iechyd, addysg a'r amgylchedd a £2.59 biliwn ar elusennau a'r sector wirfoddol, cyfanswm sydd bron yn £13 biliwn. Cafodd 134,000 prosiect eu hariannu gan y Loteri, gan helpu i wella ansawdd bywyd pawb.

Am bob £1 a werir ar docyn Loteri*

Achosion Da

Gwobrau

Camelot
(mae 0.5c ohono yn elw)

Y Trysorlys

Manwerthwyr



*Mae'r symiau hyn yn seiliedig ar y gwerthiannau yng nghais Camelot am y drwydded bresennol

I ble mae'r arian at achosion da yn mynd?



Chwaraeon

Celf

Treftadaeth

Elusennau

Iechyd, Addysg, a'r Amgylchedd

Nid yw'r cyfrifoldeb am ddosbarthu arian y Loteri yn gorwedd gyda'r Llywodraeth na Camelot, ond mae yn nwylo nifer o gyrff dosbarthu annibynnol.

Dysgu o brofiad tramor

1.9 Mae Loteri Genedlaethol y DU yn unigryw o ran amrediad yr achosion da a gefnogir ac o ran y cyllid y mae'n ei ddarparu. Mewn gwledydd eraill, ymddengys bod loteris wedi eu sefydlu i ddarparu cyllid i un achos da neu er mwyn iddo fynd i mewn i'r Trysorlys neu ei debyg.

1.10 Yn Unol Daleithiau America er enghraifft, mentrau addysgol megis ysgoloriaethau neu raglenni adeiladu ysgolion oedd yn manteisio o tua hanner loteris y taleithiau. Mae mwyafrif pres loteris gwledydd eraill yn mynd i goffrau cyffredinol y wlad honno. Yn Ewrop, fodd bynnag, tueddir cefnogi mwy o amrywiaeth o achosion da, a bydd amryw o'r loteris yn ariannu mwy nag un achos da.

1.11 Mae loteris Awstralia yn ariannu achosion da tebyg i rai'r DU ond mae dulliau gwahanol ganddi i'w dosbarthu. Penodir arian Loteri Gorllewin Awstralia ar gyfer ysbytai, chwaraeon, a chelfyddydau, Gŵyl Perth a'r Diwydiant Ffilm, ac arian uniongyrchol i elusennau. Mae gwahanol adrannau'r llywodraeth yn rheoli cyfran arwyddocaol o'r gwariant. Er enghraifft, bydd 40% o'r arian yn mynd i Gronfa Ysbytai Adran Iechyd Gorllewin Awstralia, 5% yr un i'r Adran Diwylliant a Chelfyddydau ac i'r Adran Chwaraeon a Hamdden.

1.12 Yn Seland Newydd, fodd bynnag, mae llai o reolaeth y llywodraeth ar broses arian y Loteri, a chanddyn nhw mae'n debyg y mae'r dull tebycaf o rannu arian i ddull y DU gydag 20% o bris y tocyn (o'i gymharu â 28% yn y DU) yn mynd at achosion da. Mae Bwrdd Grantiau'r Loteri yn penderfynu cyfraddau'r pres a rennir i'r asiantaethau dosbarthu ac i rwydwaith pwyllgorau dosbarthu'r Loteri. Mae Cronfa o Ddewis Gweinidog y Loteri yn derbyn ceisiadau gan unigolion a grwpiau ar gyfer prosiectau elusennol nag sydd yn gyfrifoldeb unrhyw un o'r wyth pwyllgor dosbarthu'r Loteri.

1.13 Mae cymharu'r hyn sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r byd yn awgrymu bod yr achosion da a ddewisir a'r trefniadau gogyfer â chynnal yr achosion da hynny yn tyfu allan o'r modd y trefnir y llywodraeth a'r sector gwirfoddol, ac mai dim ond yn y cyd-destun hwnnw y maent yn gwneud synnwyr.

Incwm y Loteri

1.14 Yn sicr mae codi dros £14 biliwn at achosion da ers y cychwyn yn hwyr yn 1994 yn gwneud Loteri Genedlaethol y DU yn llwyddiant mewn unrhyw ystyr. Nid yn ddamweiniol y digwyddodd hyn. Fe'i dosbarthwyd o ganlyniad i arbenigedd Camelot, rheolaeth gywir gan y Comisiynwyr dros Ostwng y Ddyled Genedlaethol sydd yn buddsoddi'r pres a godir gan y Loteri hyd nes iddo gael ei rannu mewn grantiau, a Chomisiwn y Loteri Genedlaethol sy'n monitro perfformiad Camelot ac yn adrodd amdano.

1.15 Aeth gwerthiant tocynnau, sef £41.36 biliwn (erbyn Mawrth 2003) ymhell y tu hwnt i'r rhagdybiaethau a osodwyd yn y Papur Gwyn gwreiddiol, A National Lottery Raising Funds for Good Causes (Cm 1861), 10 mlynedd yn ôl. Yna meddyliwyd bod y gwerthiannau a oedd yn £4 biliwn y flwyddyn ar uchafbwynt yr hyn a oedd yn bosibl. Rydym wedi mynd heibio'r swm hwn yn hawdd bob blwyddyn ers i ni weithredu.

1.16 Roedd gwerthiannau tocynnau wedi codi tua £13 biliwn erbyn Mawrth 2003, swm aruthrol gyda bron £1.5 biliwn yn ychwanegol wrth fuddsoddi ei enillion. Manteisiodd achosion da o ganlyniad iddo a chyllidwyd llawer mwy o brosiectau nag a feddyliwyd y buasai'n bosibl ar y cychwyn.

1.17 O uchafswm £1.952 biliwn yn 1997/98, yn araf mae'r incwm drwyddi draw at achosion da wedi gostwng yn raddol i £1.590 biliwn yn 2002/03. Mae'r duedd honno yn adlewyrchu gostyngiad naturiol a disgwyliadwy yng ngwerthiannau tocynnau'r brif gêm, o'r uchafbwyntiau aruthrol a gyrhaeddwyd ynghanol y 1990au. Mae'r ffigwr yn dal yn un ardderchog ac fe'i cydnabyddir gan *La Fleur's World Sales Report* sy'n gosod y DU yn drydydd yn nhermau gwerthiannau blynyddol drwyddi draw. Mae profiad bydeang gyda loterïan yn dangos bod diddordeb yn gwanhau wedi iddo gyrraedd uchafbwynt cynnar. Nid ydym yn derbyn na ellir gwyrdroi'r dirywiad yng ngwerthiannau'r DU, mae'r gostyngiad graddol yn y gwerthiannau yn unol â'r profiad hwn.

Gwerthiant Tocynnau'r Loteri Genedlaethol 1994-2003



1.18 Mae nifer o theorïau ynglyn â pham y mae refeniw yn codi a disgyn. Anaml y gellir ei esbonio oherwydd un ffactor er gwell neu er gwaeth. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod dadleuon amdano yn cael rhyw ddylanwad ar werthiant tocynnau am gyfnod byr, ond gall hwn gael ei wrthdroi a chynyddu pan geir symiau cyfunol yn wobrau. Mae Comisiwn y Loteri Genedlaethol yn ystyried bod mesur dylanwad unrhyw ffactor unigol ar y gwerthiant yn anodd iawn oherwydd bod nifer o ffactorau yn cael dylanwad arno.

1.19 Mae Camelot wedi cymryd camau i gynyddu hyder ac mae'n argoeli y bydd twf yng ngwerthiant tocynnau o ddiwedd y flwyddyn ariannol hon oherwydd bod cynlluniau gêmau newydd ar droed.

1.20 Profodd y Loteri iddi fod yn llwyddiant, gan fynd y tu hwnt i bob disgwyl wrth godi incwm i ddarparu cyfleusterau lawer na fedrai cyllido confensiynol eu darparu. Mae'n parhau yn ffynhonnell gyllid gref a phwysig at achosion da, a'n disgwyliadau yw y bydd hyn yn parhau.

Barn pobl am y Loteri

1.21 Cyhoeddwyd papur ymgynghorol gennym ar bolisi dosbarthu'r Loteri fis Gorffennaf diwethaf a derbyniwyd dros 400 ymateb gan amrediad eang o bobl gan gynnwys awdurdodau lleol, elusennau, grwpiau gwirfoddol, aelodau unigol o'r cyhoedd a dosbarthwyr y Loteri. Rydym wedi eu hystyried yn ofalus ac maent wedi ein cynorthwyo i lunio'r cynigion sy'n gynwysedig yn y papur hwn. Ceir crynodeb o'r ymatebion ar wefan y DCMS, www.culture.gov.uk. Rhai o'r themâu allweddol a ymddangosodd oedd:

- Y dylai Camelot a'r dosbarthwyr gydweithio i godi ymwybyddiaeth o gyllid y Loteri a chryfhau'r 'brand', yn bennaf ar lefel leol neu ranbarthol.
- Mae'n rhaid i ni sicrhau bod y cyhoedd yn cymryd rhan ym mlaenoriaethau'r dosbarthwyr a bod gwell tryloywder yn y prosesau ymgeisio a dyfarnu.
- Roedd rhywfaint o gefnogaeth, yn enwedig o du mudiadau bychain, i gyflwyno micro-grantiau gan ddefnyddio proses ymgeisio syml iawn. Hyn oedd yn cael ei weld yn 'gam cyntaf ar lwybr y Loteri' y gellid ei ddefnyddio i ymgymhwyso.
- Derbynnid yn gyffredinol bod llawer iawn o ardaloedd difreintiedig ar eu colled oherwydd nad oes ganddynt fudiadau datblygedig a all ymgeisio am grantiau, ond roedd amrywiaeth barn ynglŷn â'r angen i dalu sylw i hyn yn gyffredinol, ac am a ddylid targedu ardaloedd difreintiedig.?
- Roedd cefnogaeth i gael 'un drws ffrynt' er mwyn darparu ffordd hawdd y gallai ymgeiswyr ddadlau eu hochr ac roedd cefnogaeth dros ddefnyddio un ffurflen gais ar gyfer prosiectau traws-ddosbarthu megis yr un a ddefnyddir ar gyfer y cynllun peilot adeiladau cymunedol.
- Disgrifiodd nifer a ymatebodd yr angen am gael ymateb yn gynnar ac yn onest am ragoriaethau'r cais ac am y cyfle i'w adolygu a'i gyflwyno eilwaith, gyda chefnogaeth ychwanegol a chyngor gan ddosbarthwyr pe byddai angen. Awgrymwyd un ffurflen gyn-ymgeisio gan nifer i hwyluso hyn.

- Ynglŷn â'r potensial i ddarparu siopau pob dim a roddai gyngor ar gyllid Loteri, roedd y mwyafrif yn cefnogi darparu system 'rithwir' yn hytrach na chael mannau arbennig am y gallai'r rheiny fod yn ddrud ac yn anhyblyg.
- Tra bod cefnogaeth lwyr i gysyniad 'ychwanegoldeb' a chred gref ei fod yn dal yn berthnasol, cydnabyddid bod angen i gyllid y Loteri gyd-redeg â ffynonellau cyllido eraill. Yn ychwanegol, roedd cefnogaeth arwyddocaol dros barhau yn annibynnol rhag y dosbarthwyr.
- Roedd cefnogaeth gyffredinol am ostwng biwrocratiaeth, a chymeradwyid prosesau ymgeisio byrrach ar gyfer prosiectau gyda llai o risg iddynt. Tra ystyrid bod cynlluniau busnes priodol a strategaethau 'dihangfa' yn hanfodol, cydnabyddid hefyd y byddai rhai prosiectau, yn enwedig rhai dyfeisgar, yn anorfod yn methu.
- Canmolwyd yn bendant y cysyniad o gael prif brosiectau wedi eu cyllido gan y Loteri, gyda chyllid ychwanegol gan bartneriaethau, am fod y rhain yn aml wedi darparu effaith drawsnewidiol na fyddai'n bosibl wrth eu cyllido o ffynonellau eraill.

1.22 Roedd y DCMS hefyd wedi comisiynu ymchwil o ansawdd ar y cyd â Camelot gyda chroestoriad o ddinasyddion a oedd hefyd yn chwaraewyr Loteri mewn dau weithdy yn ystod mis Rhagfyr 2002. Dangosodd y rhain bod lefel uchel o ddiffyg ffydd yn nosbarthiad y pres at achosion da oherwydd y diffyg gwybodaeth am i ble yr aeth. Roedd y bobl yn unfryd eu barn y dylid brandio prosiectau achosion da â logo bysedd croes y Loteri Genedlaethol er mwyn darparu cyswllt mewn cymunedau lleol rhwng y Loteri ac achosion da.

1.23 Cafwyd galwad am fwy o dryloywder ac ateboldeb wrth wneud penderfyniadau a galwad am lais mwy croch i'r cyhoedd. Cafwyd awgrym, a gytunai â'r ymatebion i'r papur ymgynghorol, y dylai rhai aelodau o'r cyhoedd gymryd rhan ar y paneli penderfynu. Penderfynwyd i gychwyn defnyddio refferenda, holiaduron a phleidleisio ar gefn y tocynnau Loteri, ond teimlai'r bobl hyn nad oeddent am gymryd cyfrifoldeb yn unigol am benderfynu ar ddyfarniadau penodol.

1.24 Rydym yn dymuno ymateb i'r pryderon hyn ac i'r awgrymiadau am ddatblygu'r cynigion sydd yn y ddogfen hon. Byddwn yn dal i ymgynghori â chwaraewyr y Loteri ac â'r cyhoedd.

2. Beth ddylai'r Loteri ei ariannu?

2.1 Mae'r Loteri Genedlaethol yn cefnogi llawer o bethau gwahanol. Mae'n helpu i gynnal y celfyddydau, chwaraeon a threftadaeth, elusennau a'r sector wirfoddol, iechyd, addysg a'r amgylchedd. Mae'n cyllido prosiectau mawrion cenedlaethol arweiniol megis Stadiwm y Mileniwm neu'r Tate Modern a hefyd yn gosod to newydd ar neuadd bentref neu'n talu am ŵyl gelf leol. Dangosodd yr ymgynghori fod pobl yn parhau i ddymuno i gyllid y Loteri wneud gwahaniaeth, ac iddo fod yn wahanol i brif ffrwd gwariant cyhoeddus ac iddo fod yn sensitif i anghenion a diddordebau lluoedd cymunedau ein cenedl.

2.2 Mae'n anorfod bod yr amrywiaeth hwn yn golygu tra bo pobl yn hoffi llawer o'r pethau y mae'r Loteri'n eu cyllido, ni all pawb hoffi popeth. Bydd nifer fechan o grantiau yn amhoblogaidd gan rai pobl. Mae hi'n amlwg yn bwysig bod penderfynu ymhle i wario arian y cyhoedd yn cael ei astudio â chrib mân, ac mae'r un mor ddilys i bobl fynegi eu pryderon os credant fod y penderfyniadau yn rhai anghywir. Ond rhaid i ni sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r amrediad eang o brosiectau a gyllidir, fel y gallant osod y penderfyniadau nad ydynt yn eu hoffi yn eu cyd-destun. Er enghraifft, roedd grantiau diweddar y Gronfa Gymunedol sef £336,000 i Gynghrair Cenedlaethol yr Ymgyrchoedd Atal Alltudio (NCADC) wedi cychwyn tipyn o ddadl. Dylai grantiau'r Loteri fod tuag at achosion da, nid gweithgareddau dysgeidiaeth, a chymerwyd camau i sicrhau hynny, ond rhaid ystyried y grant hwnnw yng nghyd-destun rhai o'r grantiau eraill a ganiatawyd: £305.5 miliwn i brosiectau i blant a phobl ifanc er enghraifft, a £109.8 million a roddwyd i fwy na 2000 o neuaddau pentref. Eto, cwynodd rhai am y swm bychan o gyllid Loteri sy'n mynd i brosiectau tramor, ac eto mae'r cyhoedd yn cyfrannu miliynau o bunnoedd bob blwyddyn at achosion da tramor.

Themâu allweddol i'r dyfodol

2.3 Dylid cadw'n gyfredol yr hyn sydd ei angen arnom o'r Loteri yn genedlaethol. Bwriadwn ganolbwyntio ar dair thema allweddol i'r cyllid Loteri i'r dyfodol. Bydd y pwyslais ar newid cadarnhaol. Mae pawb yn gwybod sut y gall ennill y Loteri drawsnewid bywyd yr enillydd. Dylai'r un ymdeimlad o newid a chyfle newydd redeg drwy'r holl grantiau i achosion da. Bydd yr egwyddorion hyn yn berthnasol i holl grantiau'r Loteri ond bydd yn hynod bwysig i waith y dosbarthwyr newydd a ddisgrifir yn y drydedd Bennod.

2.4 Rhaid i'r Loteri ddarparu **cyllid haws a chyrraeddadwy i gymunedau.** Mae'n delio â phobl leol i ganfod beth yr hoffent ei gyflawni a chael y rhyddid i'w wneud drostynt eu hunain. Felly dylai ymgeisio am gyllid fod mor hawdd â phosibl. Rhaid i ni hefyd edrych ar ffyrdd newydd o gael arian i gymunedau a gwneud y defnydd gorau ohono unwaith iddo gyrraedd yno, gan gynnwys cyllido mathau eraill o fudiadau lleol a chymunedol megis cwmnïau â diddordeb cymunedol ganddynt a chymdeithasau darbodus.

Mae rhaglen Dyfarniadau i Bawb yn rhoi grantiau sydd rhwng £500 a £5000 i grwpiau bychain lleol mewn dull cyflym uniongyrchol. Yn Lloegr, rhoddodd y rhaglen hon grantiau i grwpiau ym mhob awdurdod lleol yn y wlad. Adroddodd derbynwyr grantiau fod grantiau Dyfarniadau i Bawb wedi helpu eu prosiectau lleol i gyrraedd pobl newydd i'w defnyddio; bod eu grwpiau yn gryfach o ganlyniad i'r grantiau, a bod cynnydd mewn medrau a hyder gwirfoddolwyr; a bod y grantiau wedi helpu i gryfhau'r cysylltiadau yn y gymuned ac wedi cynnyddu balchder yn yr ardal. Cafodd Dyfarniadau i Bawb lwyddiant cyffelyb yn Yr Alban, yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon.

2.5 Dylai'r Loteri ddarparu cyllid trawsnewidiol mawr o'r math sy'n ysbrydoli ac yn adfywio. Mae'r rhain yn cynnwys prosiectau mawrion megis yr Eden Project a'r BALTIC – mathau o brosiectau na fyddai wedi cael eu hadeiladu oni bai am bres y Loteri. Ond maent hefyd yn cynnwys rhai o'r prif raglenni ledled y DU a ariannwyd gan y Loteri ac sy'n cynnig profiadau i bobl yn ychwanegol i'r hyn a fyddai ar gael iddynt fel arall – pethau megis rhaglenni dysgu wedi i'r ysgol gau a chwaraeon mewn ysgolion.

Canolfan ryngwladol newydd enfawr ar gyfer celf heddiw yw'r BALTIC. Yn wahanol i orielau eraill, nid oes ganddi gasgliad parhaol. Yn hytrach mae'n cyflwyno rhaglen ddeinamig ac uchelgeisiol o arddangosfeydd a digwyddiadau. Mae bron 700,000 o bobl wedi dod drwy ei drysau ers iddi agor ym mis Gorffennaf 2002. Mae erbyn hyn yn disgwyl dros filiwn o ymwelwyr yn ei blwyddyn gyntaf o'i gymharu â'r targed 300,000 gwreiddiol. Mae ei llwyddiant anhygoel o ganlyniad i raglen sy'n newid yn barhaus, lefel uchel o ymwelwyr o'r rhanbarth sy'n ail-ymweld â hi, yn ogystal â sylfaen gynyddol o dwristiaid yn Newcastle Gateshead. Manteisiodd orielau eraill y rhanbarth hefyd oherwydd llwyddiant y BALTIC, a chynyddodd eu hymwelwyr hwythau ers iddi agor.

2.6 Ac yn olaf, dylai'r Loteri fod yn bŵer er creu **dyfeisgarwch**, gan gyllido prosesau newydd a dulliau newydd o ymgysylltu â chymunedau a chynyddu'r nifer o bobl sy'n ymwneud â'r Loteri, gan gynnwys dathlu'r hyn a gyflawnodd y Loteri. Mae'r Loteri'n wahanol i ffynonellau eraill cyllid a gall weithredu mewn dull gwahanol. Dylai gyllido dyfeisgarwch, gan adael i bobl arbrofi, mentro mewn ffyrdd newydd o wneud pethau, a derbyn y risg na fydd rhai pethau weithiau'n gweithio.

Mae Cerdd yr Ifanc yn darparu cyfleoedd i greu cerddoriaeth i bobl ifanc heblaw yn oriau ysgol, ond mae'n gweithio'n glós gydag ysgolion i ychwanegu at eu darpariaeth cerddorol. Fe'i sefydlwyd gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, a'i lansio gan y Prif Weinidog yn 1999 gyda grant £30 miliwn o Loteri'r Celfyddydau. Ei bwriad yw hybu a datblygu cyfleoedd cerddorol i bobl ifanc hyd at, a chan gynnwys, 18 oed. Yn 2001 dyfarnodd Cyngor y Celfyddydau grant Loteri ychwanegol gwerth £30 miliwn, i alluogi Cerdd yr Ifanc i barhau ei gwaith hyd 2005. Cafodd dros 500,000 o bobl ifanc gyfle i greu cerdd, mewn 92% o awdurdodau lleol yn Lloegr.

Ychwanegoldeb

2.7 Ers ei chychwyn yn 1993 egwyddor y Loteri yw na ddylai pres y Loteri dalu dim ond am bethau y byddai'r Llywodraeth fel arall wedi talu amdanynt. Dywedodd John Major yn 1994 "…We will make no case on case reductions on conventional public spending programmes to take account of awards from the Lottery. The money raised by the Lottery will not replace public expenditure." Mae'r Llywodraeth hon wedi dal yn gadarn at egwyddor ychwanegoldeb.

Dywedodd Tony Blair yn 1997 "We don't believe it would be right to use Lottery money to pay for things which are the Government's responsibilities." Bwriadwn amddiffyn egwyddor "ychwanegoldeb", hynny yw, na fydd caniatâd i gyllid y Loteri gael gweithredu yn lle cyllid a fyddai fel arfer yn gyfrifoldeb prif ffrwd gwariant y Llywodraeth.

2.8 Mae iechyd, addysg a'r amgylchedd yn uchel ar restr blaenoriaethau llawer o bobl. Mae'r newidiadau i'r Loteri a wnaed gan y Llywodraeth hon yn 1998, a osodir yn "Loteri'r Bobl" wedi darparu bod y Loteri yn cyllido mentrau iechyd, addysg a'r amgylchedd a fu'n ychwanegiadau i brif ffrwd gwariant. Er enghraifft, ariannodd pres y Loteri fentrau ychwanegol iechyd mewn cymunedau difreintiedig, ond nid aeth i dalu am weithgareddau prif ffrwd y Gwasanaeth Iechyd a saif yn gyfrifoldeb y Llywodraeth. Ariannodd fentrau addysgol megis gweithgareddau ar ôl ysgol i bobl ifanc, ond nid ariannodd gyflog athrawon.

2.9 Nid yw talu am rywbeth ychwanegol yr un fath ag ariannu ar hap. Un o wendidau'r trefniadau cynnar oedd na chydlynwyd cyllid grantiau'r Loteri drwyddi draw yn briodol er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau. Dylai dosbarthwyr y Loteri barhau i gynllunio'u gwaith yn strategol. Lle bo ganddynt gyfrifoldeb, tebyg i Gynghorau'r Celfyddydau a Chwaraeon, am rannu grantiau'r Llywodraeth, byddant yn sicrhau bod cyllid y Loteri yn gweithio mewn undod gyda grantiau'r Llywodraeth, ond rhaid iddynt hefyd sicrhau bod cyllid y Loteri yn gwneud rhywbeth gwahanol i grant-mewn-cymorth. Mae'n anhepgor bod rhywfaint o amwysedd am yr union linell derfyn rhyngddynt, rhaid iddynt weithio'n barhaus i amddiffyn ychwanegoldeb yn y modd hwn, a bydd y gwaith hybu newydd y cyfeirir ato ym Mhennod Pedwar yn cynorthwyo'r cyhoedd i wahaniaethu rhwng y ddau yn ymarferol ar bwynt ei ddosbarthiad.

Pa fathau newydd o grantiau a ddylai fod ar gael?

2.10 Rydym yn adnewyddu ein hymrwymiad i gyllido chwaraeon, y celfyddydau (gan gynnwys ffilm) a threftadaeth, gan gadw canran bresennol cyllid y Loteri sy'n mynd i'r achosion da hynny tan ddiwedd cyfnod trwydded bresennol y Loteri yn 2009. Mae Comisiwn y Mileniwm wedi gwneud gwaith rhagorol ac rydym yn ymrwymo i gyflawni hwnnw hefyd yn ôl y cynllun. Wedi hynny, rydym yn cynnig saith math newydd o Gyllid Loteri.

Cyllid gan y dosbarthwr newydd: grantiau agored

2.11 Yn gyntaf, bydd rhaglen grantiau agored, debyg i'r un a gynigir ar hyn o bryd gan y Gronfa Gymunedol. Y dosbarthwr newydd a ddisgrifir ym Mhennod Tri fydd yn darparu hon. Bydd y cyllid hwn yn parhau i gael ei arwain gan y galw, a gellir ei ddefnyddio gan grwpiau gwirfoddol a chymunedol a busnesau cymunedol: bydd cymhwyster ei dderbyn o leiaf mor eang ag un y grantiau sy'n bodoli nawr ac a gaiff eu cynnig gan y Gronfa Gymunedol. Bydd yn canfod y prosiectau a fydd yn trawsnewid ac yn adfywio cymunedau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

2.12 Bydd nifer o raglenni grantiau gwahanol yn seiliedig ar y swm yr ymgeisir amdano a bydd y broses ymgeisio, yr asesiad, a lefel monitro'r grantiau hyn yn briodol i lefel y grant. Bydd y grantiau hyn hefyd yn gynwysedig yn y dull a fydd yn seiliedig ar ganlyniadau, ac ar y strategaeth a ddatblygir gan y Gronfa Gymunedol. Bydd y gofyn am gyllid cyfatebol cyfartal odddi wrth grwpiau cymunedol eto mor hyblyg o leiaf â'r rhai a weithredir nawr gan y Gronfa Gymunedol. Ni fydd cyfradd y cyllid yn y rhaglen hon yn is nag a warantir nawr, ac ni fydd o dan reolaeth uwch gan y Llywodraeth.

Cyllid gan y dosbarthwr newydd: ariannu rhaglen genedlaethol

2.13 Bydd ail ffrwd cyllid y rhaglen genedlaethol yn debyg iawn i'r hyn a wnaeth y Gronfa Cyfleoedd Newydd hyd yn hyn, gan ddefnyddio themâu eang iechyd, addysg a'r amgylchedd. Enghreifftiau fu Addysg Gorfforol a chwaraeon mewn ysgolion, a rhaglenni byw yn iach.

2.14 Cytunir ar beth y dylid gwario'r arian – a fynegir fel canlyniadau diffiniedig manwl – yn dilyn ymgynghori a'i osod allan yng nghynllun strategol y dosbarthwr newydd. Bydd y rhaglenni hyn yn agored i asiantaethau statudol neu fasnachol ac asiantaethau eraill an-wleidyddol â'u seiliau yn y gymdeithas (megis ysgolion, grwpiau diddordeb cleifion, ymddiriedolaethau gofal cychwynnol) yn ogystal â mudiadau gwirfoddol a chymunedol a mentrau cymdeithasol.

Cyllid gan y dosbarthwr newydd: grantiau trawsnewid

2.15 Bydd trydedd raglen grantiau trawsnewid yn mynd tuag at gyllido prosiectau mawrion trawsnewidiol cenedlaethol arwyddocaol, tebyg i'r rhai a gyllidwyd gan Gomisiwn y Mileniwm. Bydd rhai yn cael eu cyllido yn gyfan gwbl gan y dosbarthwr newydd ond bydd hwnnw hefyd yn defnyddio peth o'i gyllid i weithredu yn gatalydd i gydweithio â chyllidwyr eraill, gan gynnwys dosbarthwyr eraill y Loteri, ar brosiectau sydd â'r gallu i drawsnewid ac ysbrydoli. Gallai'r rhaglenni hyn ddilyn themâu cymdeithasol neu gymunedol yn ogystal â buddsoddiadau mawrion isadeiledd.

Cronfa Pobl Ifanc

2.16 Yn gynharach eleni rydym wedi cyhoeddi ein bod yn ystyried sefydlu Cronfa Pobl Ifanc. Cadarnhawn yn awr y sefydlir hon yn llawn ymhen blwyddyn a bydd ganddi gyllid o £200 miliwn i gychwyn. Bydd y Llywodraeth yn ei rheoli er mwyn sicrhau y bydd y gronfa yn canolbwyntio ar brosiectau sy'n hybu cynhwysiad pobl ifanc, drwy ddarparu cyfleusterau a gweithgareddau – ar ôl ysgol ac yn ystod cyfnodau'r gwyliau – i bobl ifanc yn benodol. Datblygir cynlluniau mwy manwl wedi ymgynghori â grwpiau sy'n cynrychioli plant a phobl ifanc.

Y Gronfa Olympaidd

2.17 Y pumed maes blaenoriaeth fydd y Gronfa Olympaidd. Yng nghraidd y fenter newydd hon bydd deddfwriaeth i greu gêmau Loteri newydd a ffrwd gyllid benodedig er mwyn llwyfannu Gêmau Olympaidd llwyddiannus a rhagorol a rhaglen diwylliant, treftadaeth a chwaraeon gyffrous o'i cwmpas. Dyma'r tro cyntaf y bydd gêm Loteri newydd wedi ei chysylltu'n benodol ag un achos da arbennig, a byddwn yn defnyddio'r profiad hwn i arbrofi ac i ddarganfod a allai hyn weithio mewn amgylchiadau eraill.

Ehangu Dyfarniadau i Bawb (Lloegr)

2.18 Bu'r rhaglen Dyfarniadau i Bawb yn un o brif lwyddiannau'r Loteri. Mae'r rhaglen yn darparu un mynediad at grantiau hawdd eu cyrraedd sydd rhwng £500 a £5,000 ar gyfer ariannu amrediad eang o weithgareddau cymunedol. Dechreuodd yn gynllun peilot bychan yn 1998, ac ymsefydlu wedyn yn rhan allweddol o gyllid y Loteri ac yn brif gefnogwr grwpiau cymunedol. Er mwyn adeiladu ar y llwyddiant hwn a'i gwneud yn haws fyth i gymunedau lleol fedru manteisio ar gyllid y Loteri, rydym yn cynnig dyblu uchafswm presennol Dyfarniadau i Bawb (Lloegr) hyd £10,000. Bydd y rhaglen fodd bynnag yn parhau i fod yn gynllun 'cyffyrddiad ysgafn' drwy gyfrwng un ffurflen gais yn rhoi ymateb cyflym. Yn wir, rydym am i'r cyllid hwnnw gyrraedd cymunedau yn gyflymach fyth, ac mae ei ddosbarthwyr yn ceisio gweld sut y gallant ymateb yn gyflymach na'r 12 wythnos a gymer ar hyn o bryd. Bydd newidiadau i drefniadau presennol Dyfarniadau i Bawb yn rhannau eraill y DU yn cael eu hystyried ar wahân yn Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Micro-grantiau

2.19 O ganlyniad i ymgynghori, cafwyd amrywiol farn am y cynnig yn ein papur ymgynghorol Adolygu Cyllid y Loteri i sefydlu rhaglen micro-grantiau, a fyddai'n dosbarthu grantiau gwerth hyd at £500. Teimlai rhai y byddai'n ddefnyddiol er mwyn denu pobl a mudiadau a allai ddosbarthu canlyniadau mewn cymunedau difreintiedig, tra barn eraill oedd bod cyllid y Loteri yn llenwi bwlch mewn cyllid ychwanegol mwy o faint, ac mai dyna lle mae ei angen. Fodd bynnag, adroddwyd mewn ymchwil a gomisiynwyd gan Uned Cymunedau Gweithredol y Swyddfa Gartref ar ei Chronfa Adnoddau Cymunedol dros dair blynedd (am grantiau hyd at £500) fod gwir angen am grantiau tebyg eu gwerth i'r symiau hyn.

2.20 Cynigiwn felly fod Dyfarniadau i Bawb (Lloegr) yn cynnal peilot o gynllun micro-grantiau 'cyffyrddiad ysgafn' mewn is-ranbarth yn Lloegr. Bwriadwn gynnig peilot o fodelau amrywiol a fyddai'n cynnwys amrywiaeth y gallu i ganiatáu grantiau dros y ffôn ac i ddefnyddio cyfryngwyr i ddosbarthu cyllid. Hoffem hefyd greu peilot o'r dulliau o gael pobl leol i gymryd rhan yn y penderfynu ar geisiadau grant unigol yn ogystal ag ar flaenoriaethu cyllido, a byddwn yn croesawu barn pobl am hyn.

2.21 Byddwn yn cloriannu'r modelau amrywiol hyn gan fwriadu datblygu'r rhai mwyaf llwyddiannus yn gynllun ledled Lloegr. Bryd hynny, byddwn hefyd yn ystyried a ddylid sefydlu micro grantiau yn Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

3. Mireinio'r dosbarthwyr

3.1 Yn y papur ymgynghorol a gyhoeddwyd fis Gorffennaf diwethaf, roeddem wedi gofyn i bobl ystyried a oedd cyfle i ostwng nifer dosbarthwyr y Loteri, gan gynnwys ystyried creu un dosbarthwr yn unig. Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn erbyn y cynnig olaf hwn, gan ddweud am y manteision o gael cyllid Loteri mewn sector arbennig wedi ei ddosbarthu gan fudiad a oedd yn berchen gwybodaeth arbennig ac arbenigol. Derbyniodd Cronfa Treftadaeth y Loteri nifer o deyrngedau yn arbennig am y manteision a ddygodd ei harbenigedd hi i brosiectau'r Loteri. Daw un mudiad a all ddosbarthu grantiau'r Llywodraeth a chyllid y Loteri ar gyfer Celf a Chwaraeon ym mhob gwlad yn y DU ag arbedion oherwydd eu maint, dyblu ac undod rhoddi grantiau y dylid eu hannog. Mae hyn hefyd yn golygu bod y penderfyniadau ar y rhain yn cael eu gwneud yn Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon ac nid yn Llundain.

3.2 Wedi dweud hynny, cydnabyddid, hyd yn oed o fewn y strwythurau presennol, fod lle i ddosbarthwyr fod yn fwy effeithiol, er enghraifft drwy rannu adeiladau a swyddogaethau, a byddwn yn disgwyl iddynt wneud hynny lle bo'n bosibl. Bydd canfod y posibiliadau hyn yn un o sywddogaethau'r Fforwm Loteri newydd (a ddisgrifir ym mhara 3.19).

Un dosbarthwr cymunedol

3.3 Er gwaethaf eu dulliau gwahanol o gyllido, mae gorgyffwrdd yn digwydd rhwng gwaith y Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ac mae cyfle drwy uno'r ddau gorff hyn i greu dosbarthwr deinamig newydd a all gymryd arno swyddogaethau'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd. Bydd y dosbarthwr newydd yn parhau i gyllido elusennau, y sector wirfoddol ac iechyd, addysg a'r amgylchedd, ond bydd hefyd yn derbyn medr Comisiwn y Mileniwm i ariannu prosiectau mawrion adnewyddol. Bydd hefyd yn medru trin, drwy gytundeb, cyllid heblaw cyllid y Loteri er mwyn adeiladu swyddogaeth wirioneddol datblygu cymunedol.

3.4 Rydym yn barod i ystyried modelau newydd wrth lunio'r ddeddfwriaeth gan ddilyn y fframwaith cyffredinol canlynol. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol apwyntio Cadeirydd a Bwrdd y corff sy'n gyfrifol i'r Senedd am y dull y rheolir cyllid y Loteri a'r dull y caiff ei wario. Rhaid i'r corff hefyd barhau yn atebol i'r Llywodraeth yn uniongyrchol am benderfyniadau ynghylch cyllid ac am y systemau y bydd yn eu gosod i sicrhau bod y penderfyniadau yn rhai dilys. Rydym wedi ymrwymo i ymgynghori â'r sector wirfoddol ac eraill am y corff newydd wrth i ni baratoi'r ddeddfwriaeth.

3.5 Bydd undod y dosbarthwr newydd yn llawer mwy na chyfanswm ei rannau. Gan ddefnyddio ei bwerau brocera newydd, ac er mwyn denu cyllid ychwanegol at gyllid y Loteri, bydd yn rhywbeth newydd, gan wneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl a chymunedau dan anfantais. Bydd yn arwain er mwyn ei gwneud yn haws i'r cyhoedd ymgyrraedd at grantiau'r Loteri ac er mwyn i'r dosbarthwyr gydweithio mwy hyd yn oed pan fo angen. Bydd yn gronfa trawsnewid, o'r grantiau lleiaf ar lefel leol hyd brosiectau cyfalaf mawrion, a bydd yn ddosbarthwr cymunedol gwirioneddol, gan ariannu prosiectau i adfer ac adfywio cymunedau.

3.6 Yn y modd hwn, bydd hanner pres y Loteri yn mynd yn uniongyrchol i gymunedau ledled y wlad, gan weithredu yn gyfalaf menter i'w galluogi i ariannu drostynt eu hunain y pethau sy'n wahanol ac na chaent eu hariannu gan y llywodraeth. Ac ymgryfheir y dosbarthwr newydd i gefnogi ceisiadau gan y sector gymunedol a menter cymdeithasol a fyddai'n egino. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda Chwmnïau â Diddordebau Cymunedol (CICs, a ddisgrifir ar wahân). Credwn y dylai CICs hybu perchnogaeth amgenach gan y gymuned ar brosiectau Loteri a thalu sylw i statws "amddifad" llawer ohonynt. Disgwyliwn i'r corff newydd weithio'n glós gyda'r CICs a mentrau eraill cymdeithasol i gyllido mentrau lleol dyfeisgar gan daclo'r anfantais a hybu undod cymdeithasol. Maen prawf y dosbarthwr newydd fydd y dylai cyllid fodoli er budd y cyhoedd ac y dylai wneud gwelliannau cynalidwy i ansawdd bywyd a byw yn dda i gymunedau lleol. Bydd ei gronfeydd, fel rhai dosbarthwyr eraill y Loteri, yn ychwanegiadau at wariant presennol a dyfodol y llywodraeth ganolog, y gweinyddiaetau a ddatganolwyd, llywodraeth leol a chyrff statudol eraill. Bydd yn cydlifo â ffynonellau cyllid eraill a bydd yn cynnig dulliau gwahanol o ddosbarthu canlyniadau rhaglenni. Byddwn hefyd yn disgwyl i'r corff newydd ddarparu gwelliannau sylweddol o ran enillion effeithlonrwydd.

Cwmnïau â Diddordeb Cymunedol

Yn ddiweddar, cyhoeddodd yr Adran Masnach a Diwydiant, y Swyddfa Gartref a'r Trysorlys, gyd-ymgynghoriad ar gyflwyniad Cwmnïau â Diddordeb Cymunedol (CICs). Bydd y CIC yn fath newydd o gwmni, wedi ei greu'n arbennig i fod o fantais i fentrau lleol sy'n dymuno defnyddio eu helw a'u hasedion er lles y cyhoedd. Bydd CICs yn hawdd eu sefydlu, gyda holl hyblygrwydd a phendantrwydd cwmni, ond bydd ganddynt hefyd nodweddion arbennig i sicrhau eu bod yn gweithio er budd y gymuned. Bwriedir y bydd y CIC, cwmni newydd wedi ei ddylunio'n arbennig, yn eistedd ochr-yn-ochr â statws elusennol a ffurf y Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus, sy'n cael eu defnyddio eisoes gan nifer o fentrau cymdeithasol, a chydategu'r status hwnnw a'r ffurf honno.

Bydd cyflwyno CICs yn dadlennu cydnabyddiaeth bellach o'r swyddogaeth gynyddol y mae mentrau cymunedol yn ei chwarae wrth adfer ardaloedd o dan anfantais, gan atgyfnerthu cymunedau lleol a dosbarthu gwasanaethau newydd, dyfeisgar ar lefel leol. Yn union fel y mae cyllid Loteri yn cael ei ddefnyddio i ariannu prosiectau er lles y cyhoedd, bydd CICs, fel mentrau cymdeithasol eraill, yn chwilio am amcanion cymdeithasol sydd er lles y gymuned neu'r cyhoedd ehangach. Nid bwriad y Llywodraeth i'r CICS yw eu bod yn dosbarthu gwasanaethau hanfodol cyhoeddus mewn sectorau craidd megis ysbytai ac ysgolion. Yn hytrach, dylai CICs ddatblygu i gwrdd ag anghenion cymunedau lleol, gan gydlifo gyda gwasanaethau craidd y Llywodraeth mewn meysydd megis darpariaeth gofal plant, tai cymdeithasol, hamdden a chludiant cymunedol.

Bydd CICs yn taro cydbwysedd gofalus; tra bydd ffurf hyblyg CICs yn caniatáu bod mentrau yn codi arian er mwyn tyfu ac ymestyn eu gweithgareddau, bydd clo ar eu hasedion yn sicrhau mai prif enillydd y CIC fydd y gymdogaeth ehangach. Credwn y bydd cynigion newydd y CIC yn debyg o ennyn diddordeb y dosbarthwr cymunedol newydd, a gobeithiwn y bydd y corff newydd yn cydweithio'n agos â'r CICS a mentrau cymdeithasol eraill er mwyn ariannu mentrau lleol dyfeisgar i daclo anfantais a hybu undod cymdeithasol.

Beth fydd swyddogaeth y dosbarthwr newydd?

3.7 Bydd y dosbarthwr newydd yn arwain y ffordd ymlaen i gyflwyno llawer o'r gwelliannau wrth ddosbarthu cyllid y Loteri a gododd o'r Adolygiad, yn sefydlu ymarfer gorau, ac yn rhannu gwybodaeth â'r dosbarthwyr eraill. Bydd swyddogaeth allweddol ganddo wrth ddatblygu gwell cydweithrediad rhwng dosbarthwyr a bydd yn gweinyddu Fforwm Loteri ar y Cyd (a ddisgrifir ym mhara 3.19) i yrru'r gwelliannau hyn yn eu blaenau.

3.8 Bydd yn darparu un mynediad yn unig i ymgeiswyr newydd sy'n ansicr am lle i ofyn am gyngor ac arweiniad, a bydd yn darganfod y rhaglen grantiau fwyaf cymwys i ymgeisydd, gan gynnwys rhaglenni grantiau a ddarperir gan ddosbarthwyr eraill y Loteri. Bydd yn gweithredu llinell ffôn gymorth a gwefan ar ran holl ddosbarthwyr y Loteri a bydd yn arwain y ffordd i ehangu a datblygu'r gwasanaeth a gynigir.

3.9 Bydd hefyd yn gyswllt cyntaf ymgeiswyr sy'n teimlo nad yw eu prosiect yn ffitio'n dwt i gylch gorchwyl dosbarthwyr eraill.

3.10 Bydd yn datblygu cefnogaeth gyn-ymgeisio i bob ymgeisydd, a safonau gwasanaeth cyffredin ar draws holl ddosbarthwyr y Loteri, gan gynnwys siarter cwsmeriaid ar-y-cyd, proses annibynnol allanol cwynion a datblygu proses gyffredin ar gyfer ymgeisio. Bydd yn arwain ar ddatblygu rhwydwaith er mwyn adeiladu cymhwyster mewn cymunedau ar draws y DU ac yn cynghori darpar-ymgeiswyr.

3.11 Bydd yn gweithio i sicrhau bod pob gwlad a rhanbarth yn y DU yn cael mynediad cyfartal i gyllid y Loteri. Mae'r fenter Chwarae Teg eisoes yn gwneud cynnydd da wrth dalu sylw i'r amcan hwn. Dewiswyd 77 ardal ar y sail eu bod yn ddifreintiedig ac yn derbyn lefelau isel o gyllid y Loteri, ac mae'r Gronfa Cyfleoedd Newydd a'r Gronfa Gymunedol yn dosbarthu £176 miliwn o gefnogaeth arbennig dros dair blynedd.

3.12 Bydd y dosbarthwr newydd yn arwain wrth hybu a hysbysu'r achosion da y bydd yn eu cefnogi'n uniongyrchol, a'r rhai a gefnogir yn gyffredinol gan y Loteri Genedlaethol. Lleolir Cyd-Uned Hybu'r Loteri o fewn y dosbarthwr newydd, er y bydd yn parhau i gael ei rheoli gan fwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr Camelot, DCMS a dosbarthwyr.

3.13 Bydd yn gyfrifol am weithredu'r Gronfa Pobl Ifanc, y byddwn yn ei sefydlu nawr gan ddefnyddio cyllid y Gronfa Cyfleoedd newydd ond a fydd yn tyfu yn gynllun gwirioneddol ar y cyd dan ofal y corff newydd.

3.14 Bydd yn ymgorffori rhai o agweddau dyfeisgar a gweledigaethol Comisiwn y Mileniwm yn nhirwedd y Loteri newydd.

Pwerau Comisiwn y Mileniwm

3.15 Dylid cwblhau swyddogaethau rhoddi grantiau Comisiwn y Mileniwm erbyn 31 Mawrth 2006. Wedi hynny, bydd y swyddogaethau a fydd ar ôl ganddo – yn bennaf monitro-wedi-gorffen prosiectau cyfalaf, cadw llygad ar Waddoliad Dyfarniadau'r Mileniwm, a'r gallu i ad-hawlio grantiau, perchnogaeth rhai asedion bychain a rheolaeth archif eang y Comisiwn, yn parhau. Byddwn yn deddfu er mwyn trosglwyddo'r asedion a'r cyfrifoldebau hyn i'r dosbarthwr newydd, ynghyd ag unrhyw bres a fydd yn weddill o gyllideb y Comisiwn ac unrhyw

hawliau sydd gan y Comisiwn o 1 Ebrill 2006 ymlaen, pan ddiddymir y Comisiwn, neu'n gynharach. Bydd y dosbarthwr newydd hefyd yn derbyn darpar-gyfran incwm y Comisiwn a gwyd o werthiant Cromen y Mileniwm, a ddylai ddigwydd mewn darnau ar y tro, gan gychwyn tua 2006/7.

Trafod materion sy'n trawstorri

3.16 Fodd bynnag, ni fydd y dosbarthwr newydd yn gweithredu'n unig yn weinyddwr swyddogaethau a dyletswyddau Comisiwn y Mileniwm a fydd ar ôl. Bydd yn ddyfeisiwr ac yn heriwr cymunedau ac adnewyddu diwylliannol, a bydd pwerau eang ganddo i gyllido amrywiaeth eang o brosiectau fel hynny. Yn ogystal ag ariannu prosiectau ei hunan, bydd ganddo hefyd swyddogaeth hanfodol i fod yn ganolfan ardderchowgrwydd, a rhoi cyngor ac arbenigedd y gellir ei rannu wrth reoli prosiectau cyfalaf mawrion. (para 5.20).

3.17 Gall darpar-brosiectau gwrdd â chanllawiau mwy nag un ariannwr – gall adeilad hardd a adnewyddir gyda chymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri ddod yn gyrchfan y celfyddydau; gall canolfan gymunedol a ariennir gan y Gronfa Gymunedol neu'r Gronfa Cyfleoedd Newydd gynnwys cyfleusterau chwaraeon. Ein dymuniad yw annog prosiectau fel hyn a fydd yn ein helpu i gwrdd ag amcanion niferus a diwallu nifer o anghenion y gymuned o fewn yr un cynllun. Byddwn yn gosod trefniadau priodol i'w gwneud yn haws. Yn ganolfan ardderchowgrwydd ar reolaeth prosiectau mawrion, ac yn gyllidwr, bydd y dosbarthwr newydd wrth reswm mewn sefyllfa dda i reoli prosiectau sy'n trawstorri. Byddai hyn yn cynnig manteision sylweddol i ddosbarthwyr eraill ac i ymgeiswyr pres y Loteri. Gofynnir felly i'r dosbarthwr newydd ddatblygu'r swyddogaeth honno.

3.18 Dangosodd ymgynghori hefyd fod lle i wahanol ddosbarthwyr y Loteri gydweithio'n fwy clós fyth, i rannu ymarfer gorau ac i ddatblygu safonau cyffredin, i ostwng costau gweinyddu ac i sicrhau bod y sawl sy'n ymgeisio am bres y Loteri yn cyflawni gwasanaeth di-dor, gan weithredu mewn gwirionedd yn ddosbarthwr Loteri unigol tra'n cadw'r arbenigedd sy'n eiddo iddo eisoes. Canfyddwyd meysydd megis cyd-gynlluniau, cydweithio, cyd-gynllunio strategol a rhagor o raglenni trawstorri.

Fforwm Loteri newydd

3.19 Tra bo dosbarthwyr eisoes yn cydweithio mewn nifer o feysydd, mae'n amlwg bod lle i adeiladu a gwella ar hyn. Disgrifir cynigion penodol isod ac yn rhannau eraill y papur hwn, ond drwyddi draw credwn fod angen gwneud y trefniadau presennol er mwyn gwireddu cydweithio ar sail mwy ffurfiol. Mae dosbarthwyr Lloegr a'r DU eisoes yn cwrdd i rannu gwybodaeth ac i gytuno ar bolisïau ar y cyd: mae'r grŵp Atrium yn cynnwys Prif Weithredwyr y dosbarthwyr hyn ac yn cwrdd bob deufis. Byddwn yn rhoi mandad ffurfiol i weithredu materion sy'n trawstorri a mwy o gydweithio yn Fforwm y Loteri. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn gwahodd holl Gadeiryddion y dosbarthwyr i gwrdd yn rheolaidd i sicrhau gyda'i gilydd bod y strategaeth yn gweithio.

3.20 Gwahoddwn farn am a ddylai Fforwm y Loteri ehangu i gynnwys dosbarthwyr Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, neu a yw hi'n fwy synhwyrol cael pedwar tîm ar wahân o'r math yma, pob un yn cynrychioli gwlad wahanol ac yn adrodd i'r Llywodraeth neu'r weinyddiaeth berthnasol.

3.21 Bydd dosbarthwyr yn parhau i weithio'n annibynnol lle bo hynny'n ddull mwy effeithiol o weithredu. Fodd bynnag, wrth gydweithredu, byddant yn gweithio i gyflawni'r amcanion canlynol:

- rhannu ymarfer gorau a lle mae'n ddymunol, datblygu agwedd fwy cyson;
- darparu un drws ffrynt a siop-un-stop i ymgeiswyr, yn rhannol drwy ddatblygu'r llinell ffôn gymorth a'r wefan;
- datblygu strwythurau ymgeisio cyffredin a safonau gwasanaeth cyffredin;
- parhau i arolygu cynllun Dyfarniadau i Bawb ehangach;
- cydweithredu ar gyllido a rheoli prif brosiectau cyfalaf sy'n trawstorri;
- cynyddu effeithioldeb drwy rannu adnoddau mewn meysydd megis adeiladu cymhwyster a thargedu ac ymuno lle bo hynny'n briodol mewn meysydd megis ymchwil, cloriannu a monitro;
- canfod meysydd eraill lle gellir arbed costau gweinyddu – e.e. drwy rannu adeiladau lle bo hynny'n briodol;
- datblygu strategaeth rhannu rheolaeth risg mewn meysydd lle mae diddordebau'n gorgyffwrdd; a
- thrafod gydag awdurdodau lleol/y sector wirfoddol/asiantaethau rhanbarthol ar lefel strategol a datblygu rhwydwaith wedi ei rhannu.

3.22 Bydd y grŵp yn gweithredu drwy gonsensws a bydd pawb yn cymryd rhan gyfartal. Fodd bynnag, am fod gan y dosbarthwr newydd gyfrifoldeb am 50% o holl gyllid y Loteri, rydym yn rhagweld y bydd y dosbarthwr newydd yn arwain ar nifer o'r materion hyn ac yn benodol yn y meysydd canlynol. Bydd y dosbarthwr newydd yn cynorthwyo drwy ddatblygu proses gyn-ymgeisio i bob ymgeisydd, a safonau cyffredin gwasanaeth i holl ddosbarthwyr cyllid y Loteri, gan gynnwys siarter cyffredin cwsmeriaid, proses gwyno annibynnol allanol a datblygu proses ymgeisio gyffredin. Bydd y dosbarthwr newydd yn arwain datblygiad rhwydwaith adeiladu cymhwyster mewn cymunedau ledled y DU ac yn cynghori darpar-ymgeiswyr. Er mwyn symleiddio pethau i ymgeiswyr y bydd angen iddynt wneud cais i fwy nag un dosbarthwr ar gyfer yr un prosiect, bydd dosbarthwyr yn gweithredu protocol Ymgeisiadau Traws-Ddosbarthwyr.

3.23 Bydd y Fforwm yn llunio cyd-strategaeth a gaiff ei chytuno gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ac yna'n adrodd yn ôl iddi ar gyflawniad amcanion y strategaeth. Byddai trefniadau cyffelyb yn Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon pe sefydlid grwpiau ar wahân ar gyfer pob rhan o'r DU.

4. Creu huniaeth unigol i'r Loteri

Gwybod beth a ariannwyd gan bres y Loteri

4.1 Un o'r materion a ymddangosodd yn fwyaf eglur o'r ymgynghori y llynedd oedd yr angen i'r rhai sy'n hapchwarae'r Loteri gael gwybod mwy am beth a gyllidwyd gan bres y Loteri. Mae hyn am nifer o resymau. Er nad yw pobl yn hapchwarae'r Loteri yn benodol er mwyn rhoi pres at achosion da, mae tysytiolaeth sy'n awgrymu os nad ydynt yn ennill, y bydd pobl yn teimlo'n falch o'r ffaith bod peth o arian eu tocynnau yn mynd i ariannu achosion da. Ac oherwydd bod dolen uniongyrchol rhwng prynu tocyn ac ariannu achosion da, mae'n bwysig bod hapchwaraewyr y Loteri yn gwybod beth yw'r achosion da hynny, a beth a gyllidwyd gan eu pres.

4.2 Mae gwybod bod prosiectau eraill wedi cael dyfarniad pres Loteri iddynt hefyd yn annog grwpiau eraill i geisio amdano, a gall hynny fod yn bwysig, yn enwedig ar lefel leol lle na fyddai grwpiau llai yn meddwl ymgeisio amdano fel arall.

4.3 Mae gan y Loteri Genedlaethol swyddogaeth unigryw ym mywyd y DU. Mae holl gyllid y Loteri yn dibynnu ar y miliynau sy'n chwarae gêmau'r Loteri. Dylai pawb sy'n eu chwarae deimlo nid yn unig fod chwarae'r Loteri yn rhoi cyfle iddynt ennill, ac efallai ennill jacpot newid-bywyd, ond os mai colli a wnânt, bod cyfran go lew o'r pres a wariant yn mynd at achosion da y maent yn eu cefnogi. Felly rydym am weld cyswllt rhwng y gêm a'r achosion da.

Cyd-frandio

4.4 Un o'r dulliau symlaf o wneud y cyswllt hwnnw rhwng prynu tocyn a chyllido prosiect yw defnyddio'r un brand ar gyfer y ddau. Mae dros 90% o oedolion yn adnabod y logo bysedd croes ac yn ei gysylltu â'r Loteri Genedlaethol. Mae'n gwneud synnwyr adeiladu ar yr adnabyddiaeth honno a defnyddio'r un logo er mwyn adnabod prosiectau a gyllidwyd gan y Loteri Genedlaethol.

4.5 Bydd pawb sy'n elwa yn arddangos logo sy'n gyffredin iddynt, gan roi proffil uchel iddo, fel y bo'n briodol, am wahanol fathau o brosiectau sy'n derbyn help gan y Loteri. Bydd dosbarthwyr yn cydweithio â Camelot i ddatblygu dyluniau a fydd yn defnyddio'r logo bysedd croes. Cynigir hwn i brosiectau a dderbyniodd gyllid Loteri, fel y gallant arddangos eu henillion o'r Loteri yn eglur. Yn wirfoddol y gofynnir am hyn i gychwyn, ond byddwn yn ei gwneud yn orfodol ar fwyafrif y dyfarniadau oddi wrth y Loteri yn y dyfodol. Ni chredwn y bydd angen i ni orfodi'r rhai y dyfarnwyd cyllid y Loteri iddynt i arddangos plac. Ein profiad yw bod mwyafrif y prosiectau yn falch dros ben o gael cydnabod eu diolch i'r Loteri ac o ddathlu eu cyflawniad. Credwn y bydd hyn hefyd yn boblogaidd gan y cyhoedd a fydd yn gallu gweld i ble yr aeth eu pres, am y bydd y logo bysedd croes yn ymddangos mewn trefi a phentrefi ledled y DU.

4.6 Yn ail, byddwn yn archwilio ffyrdd eraill o ddefnyddio'r logo bysedd croes ledled y broses ddosbarthu yn gyfan, o'r ymgeisio hyd at ddyfarniad grant, fel y bo pawb yn gwybod o ble y daeth y pres.

Cyd-Uned Hybu

4.7 Ond mae nifer o ffyrdd eraill o drosglwyddo'r neges, a gallwn, ac fe ddylem, wneud mwy i roi gwybod i bobl sut y mae eu pres i'r Loteri yn cael ei wario. Felly byddwn yn sefydlu Cyd-Uned Hybu (JPU) lle bydd y Llywodraeth, Camelot a dosbarthwyr y Loteri yn cydweithio i wella'r ymwybyddiaeth am ble y caiff pres y Loteri ei wario. I gychwyn, lleolir yr uned o fewn Camelot, ond byddwn yn deddfu i sicrhau y gall ffurfio rhan o'r dosbarthwr Loteri newydd yn y pen draw. Bydd y JPU yn darganfod ffyrdd y gall y Llywodraeth, dosbarthwyr, a Camelot fedru cydweithio, gan wneud gwell sioe o ddweud wrth bobl i ble yr aiff eu pres.

4.8 Eu swydd gyntaf fydd astudio lefelau presennol yr ymwybyddiaeth am y Loteri Genedlaethol a beth sy'n cael ei ariannu gan y Loteri, a chanfod beth yr hoffai chwaraewyr y Loteri a'r cyhoedd ei wybod.

Byddant yn defnyddio'r canfyddiadau hynny i ddatblygu cynllun gwaith. Awgrymiadau chwaraewyr Loteri hyd yn hyn yw cael posteri am brosiectau lleol y Loteri yn y mannau lle gwerthir tocynnau Loteri, a darparu Adroddiad Blynyddol byr i chwaraewyr Loteri. Edrychwn ymlaen at dderbyn syniadau ychwanegol. Tasg allweddol fydd gwneud pobl yn fwy ymwybodol o brosiectau lleol a ariennir gan y Loteri yn ogystal â'r prosiectau mawrion cenedlaethol, a disgwyliwn y bydd yn rhaid i'r JPU wneud pethau gwahanol yn rhannau gwahanol y DU.

Diwrnod y Loteri Genedlaethol

4.9 Byddwn hefyd yn creu Diwrnod y Loteri Genedlaethol a chanolbwyntio'n flynyddol ar y Loteri a'i chyflawniadau, gan gychwyn gyda degfed pen-blwydd y Loteri y flwyddyn nesaf. Er y bydd yn Ddiwrnod y Loteri Genedlaethol, bydd ganddo ganolbwynt cryf rhanbarthol a lleol, gan gydnabod y cyfraniad a wnaeth y Loteri i'n bywyd cenedlaethol ac i gymunedau ar hyd a lled y DU. Bydd prosiectau'r Loteri yn agor eu drysau ac yn croesawu'r cyhoedd i weld y gwaith y maent yn ei wneud. Efallai y byddant yn cymryd rhan mewn digwyddiad lleol yn ymwneud â'r Loteri neu'n helpu gyda chyhoeddusrwydd eu dyfarniad yn y wasg yn lleol.

4.10 Prif ffocws y diwrnod fydd dathlu cyflawniadau'r Loteri ac rydym yn rhagweld rhaglen o ddigwyddiadau lleol a chenedlaethol ledled y DU, i ddangos i'r hapchwaraewyr beth a wnaed gydag arian y Loteri, a'i gysylltu â hapchwarae'r diwrnod hwnnw lle bydd gwobrau mawrion i'w hennill. Ond bydd y diwrnod hefyd yn caniatáu i'r rhai a elwodd o'r Loteri ddweud 'diolch' yn bersonol.

4.11 Byddwn hefyd yn annog yr unigolion a elwodd o gyllid y Loteri i gymryd rhan, gan gynnwys ein hathletwyr. Gallai hyn gynorthwyo i roi cyhoeddusrwydd i'r hyn a gyflawnodd y Loteri iddynt eisoes, neu wrth gymryd rhan mewn cynlluniau lle maent yn cyflwyno 'rhodd eu hamser' a throsglwyddo eu medrau i eraill. Mae rhai athletwyr eisoes wedi cynnig gweithio gyda'r *Summer Splash* a rhaglenni eraill i bobl ifanc. Bydd Diwrnod y Loteri Genedlaethol yn adeiladu ar hynny.

4.12 Ond gyn bwysiced â hynny rydym am ddefnyddio'r diwrnod i hybu diddordeb y gymuned leol a'i hymwneud â'r Loteri efo'r hyn a gyflawnwyd ganddi, hwyrach wrth annog y cyhoedd i gyflwyno 'rhodd eu hamser' am ddiwrnod i gefnogi prosiect lleol y Loteri drwy rannu medrau neu arbenigedd, neu bod cwmnïau lleol yn benthyca staff ac adnoddau am ddiwrnod. Mae hapchwaraewyr y Loteri eisoes yn gysylltiedig â'r achosion da wrth brynu eu tocynnau bob wythnos a phwrpas Diwrnod y Loteri Genedlaethol fydd adnabod a chryfhau'r cyswllt hwnnw.

Cynnwys y cyhoedd yn fwyfwy wrth flaenoriaethu

4.13 Mae dosbarthwyr y Loteri eisoes yn ymgynghori wrth ddatblygu eu strategaethau. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl ddweud eu dweud ar flaenoriaethau cyllid y Loteri. Ond mae canlyniadau ein hadolygiad polisi yn awgrymu yn ymarferol nad yw hyn bob amser yn casglu barn hapchwaraewyr y Loteri nac aelodau'r cyhoedd yn y modd cywir, yn ein barn ni. Felly rydym wedi penderfynu mynd gam ymhellach i sicrhau casglu barn yn fwy gweithredol a sicrhau bod y dosbarthwyr yn gweithredu arnynt.

4.14 Rhaid i'r cyrff dosbarthu a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol gynrychioli oed, tras ethnig, ac amrywiol ranbarthau'r wlad. Bydd dosbarthwyr yn defnyddio ymarfer gorau'r diwydiant recriwtio er mwyn annog pobl ledled y wlad i ymuno â'r pwyllgorau rhanbarthol sy'n penderfynu ar y grantiau. Byddwn yn adeiladu ar y profiad a enillwyd wrth ddatblygu Cwmnïau â Diddordeb Cymunedol – y model lle mae cwsmeriaid a deiliaid diddordeb eraill yn cael eu cynrychioli ar banel sy'n penderfynu ar bolisïau a blaenoriaethau buddsoddi a gweithredu.

4.15 Bydd pob dosbarthwr Loteri hefyd yn ymestyn ei waith gan cynnwys y cyhoedd mewn penderfyniadau ynglŷn â themâu cyllid y Loteri a gwariant y Loteri yn lleol. Bydd hyn yn hynod bwysig i'r grantiau agored y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.11. Byddwn yn eu hannog i ddefnyddio technegau diweddaraf pôlau piniwn ac ymgynghori â chwsmeriaid, gan gynnwys meinciau dinasyddion er mwyn pontio'r diffyg yn yr ymgynghori presennol wrth baratoi strategaethau dosbarthu ac wrth benderfynu ar ddyfarniadau lleol cymunedol.

Cynnwys y cyhoedd yn fwyfwy wrth benderfynu

4.16 Bydd y dosbarthwr newydd hefyd yn arloesi dulliau newydd wrth ymgynghori â phobl leol am benderfyniadau lleol penodol. Er bod her ymarferol ynglŷn ag unrhyw drefn sy'n ceisio cynnwys y cyhoedd wrth benderfynu ar flaenoriaethau lleol, nid ydym yn derbyn eu bod yn amhosibl eu concro. Mae awdurdodau lleol wedi arloesi gyda nifer o wahanol ffyrdd o ddenu'r cyhoedd i gymryd rhan. Nid ydym yn gorchymyn sut y dylid gwneud hyn ond rydym wedi penderfynu y dylai fod yn flaenoriaeth cynnar i'r dosbarthwr newydd, gan weithio'n glós gyda Camelot, i arbrofi dulliau o gynnwys pobl wrth wneud penderfyniadau ac y dylai hyn gynnwys arbrofi gyda slipiau ymgynghori syml megis ticio blychau a fydd ar gael yn eang, yn arbennig yn y mannau lle gwerthir tocynnau Loteri.

4.17 Bydd y Gyd-Uned Hybu hefyd yn ystyried syniadau dyfeisgar i hyrwyddo cynhwysiad y cyhoedd yn y Loteri drwy gynyddu ei bresenoldeb yn y broses benderfynu. Un enghraifft fyddai defnyddio dull tebyg i'r un sydd ym mhroses dewis Prifddinas Diwylliant 2008, lle gall gwahanol ddinasoedd a rhanbarthau (yn dilyn refferenda lleol) gystadlu/ymgyrchu am i'r Loteri ariannu prosiect cyfalaf mawr. Gellid cael gwobrau llai eraill, ond sy'n dal yn rhai sylweddol. Awgrym arall a ddaeth o'r ymatebion a gafwyd oedd defnyddio cyfran fechan o bres y Loteri mewn cronfa lle gallai'r cyhoedd bleidleisio dros brosiectau gaiff dderbyn y pres ohoni, a hynny yn wythnosol ar sioe deledu, yn dilyn cyflwyniadau byrion amdanynt. Byddwn yn archwilio'r syniadau hyn ymhellach.

4.18 Credwn y bydd hyn yn hynod briodol yn achos grantiau llai hyd at £10,000, ond rydym hefyd am weld ffurfiau newydd o benderfynu ar gyfer rhai prosiectau mawrion. Pe caent eu dylunio'n gywir, credwn fod potensial mawr yma i ddefnyddio technoleg newydd ac adnoddau darlledu i drefnu cystadleuaeth gyffrous lle gallai pobl ddewis rhwng prosiectau mawr a fyddai'n cystadlu â'i gilydd.

4.19 Byddai'r trefniadau hyn yn parhau i fod yn seiliedig ar gael eu gwirio'n briodol am eu cymhwyster, eu gwerth am arian, a'r gallu i'w dosbarthu, ond ni welwn unrhyw reswm mewn egwyddor pam na allai penderfyniadau yn y dyfodol gael eu gwneud gan y cyhoedd yn hytrach na chan bwyllgor. Profodd dosbarthwyr yn bendant eu bod yn gallu trefnu prosesau cymhleth o ymgeisio a phenderfynu. Mae'r medrau gwreiddiol hynny, wrth gael eu defnyddio i gyfeiriad newydd fel hyn yn gallu creu rhywbeth a fydd yn newydd ac a fydd yn cynnwys pobl. Gallai gynnig un ateb i'r sawl a ddywedodd fod penderfyniadau'r Loteri yn ymddangos ymhell y tu hwnt i'w cyrraedd.

Datganoli dosbarthiad y Loteri yn Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

4.20 Ar hyn o bryd, gall gweinyddiaethau datganoledig Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon[2] orchymyn polisïau Cynghorau Celf a Chwaraeon y gwledydd hynny, cyn belled â'u bod yn ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol. Gallant orchymyn polisïau dosbarthwyr ledled y DU os ydynt yn effeithio ar faterion a ddatganolwyd, cyn belled â bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno. (Enghreifftiau fyddai rhoi blaenoriaeth i gategorïau penodol o dderbynwyr grantiau, i dderbynwyr rhannau penodol o'r gwledydd hynny, neu i amcanion polisi eu Gweinyddiaeth neu Lywodraeth/Cynulliad. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadw'r grym i amrywio siâr y pres o'r gronfa ddosbarthu tuag at achosion da; i amrywio'r siâr rhwng y gwahanol gyrff dosbarthu ymhlith yr achosion da ac i greu cyrff dosbarthu newydd, neu i ddileu'r rhai presennol. Nid oes grym gan weinyddiaeth a ddatganolwyd i benderfynu ar raniad adnoddau (canran y siâr) rhwng eu gwledydd hwy a rhannau eraill y DU.

4.21 Awgrymodd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys rhai ohonynt gan weinyddiaethau a ddatganolwyd, y dylai'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon gael mwy o ddylanwad uniongyrchol ar y modd y caiff pres y Loteri ei wario yn y gwledydd hynny. Mae amrywiaeth barn am sut yn union y dylid gwneud hyn a byddwn yn ystyried y dewisiadau yn ofalus.

4.22 Rydym wedi ymrwymo i gadw undod cyfan Loteri'r DU ac felly, ein barn ymlaen llaw yw y dylem gadw strwythur y DU ar gyfer ei ddosbarthiad, ond y dylai gweinyddiaeth Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon gael mwy o ddylanwad wrth osod blaenoriaethau a strategaethau penodol, gan ystyried anghenion a dyheadau cymunedau lleol a darparwyr gwasanaethau yno. Byddwn yn deddfu os bydd angen er mwyn cyflawni hyn.

[2] I bwrpas y ddogfen hon, trafodir Gogledd Iwerddon fel petae ei gweinyddiaeth yn un ddatganoledig.

Dirprwyo penderfyniadau

4.23 Mae mwyafrif y dosbarthwyr eisoes wedi dirprwyo llawer o'r penderfyniadau ar ddyfarniadau Loteri i lefel ranbarthol a dangosodd ein hymgynghoriad fod hyn yn ennill y cydbwysedd iawn yn fynych rhwng blaenoriaethu yn lleol ac arolygu strategol rhanbarthol. Roedd amrywiaeth barn ar ddirprwyo penderfyniadau ymhellach. Credai rhai fod lle i wneud hynny, tra credai eraill fod penderfynu'n rhanbarthol (gydag ymwybyddiaeth o anghenion lleol) yn rhoi darpariaeth gytbwys rhwng cost a throsolwg strategol.

4.24 Bydd y dosbarthwr newydd yn cydnabod arwahanrwydd pedair gwlad y DU a bydd yn sicrhau bod datblygiad rhaglenni a phenderfyniadau yn cael eu datganoli i'r pedair gwlad oni bai fod angen clir am gael agwedd DU gyfan. Bydd penderfynu ynghylch grantiau unigol yn digwydd ar nifer o lefelau, gan gynnwys y DU yn gyfan, fesul gwlad, rhanbarth Lloegr, sir, dosbarth a chymuned leol. Bydd angen lefelau penderfynu gwahanol ar wahanol raglenni, ond bydd egwyddor isleoli grym yn perthyn iddynt. Bydd y dosbarthwr newydd yn cael ei strwythuro i ganiatáu i hyn ddigwydd.

Ei gwneud yn haws ymgeisio am gyllid

4.25 Un o'r negeseuon a ddaeth trwodd yn eglur yn yr ymgynghori oedd yr angen i'w gwneud yn haws ymgeisio am grantiau – yn enwedig i grwpiau bychain a oedd yn llai tebyg o fod yn brofiadol wrth ymgeisio am gyllid. Mae dosbarthwyr eisoes wedi gweithio ar symleiddio eu prosesau ymgeisio unigol, gyda pheth llwyddiant. Ond mae problemau penodol pan na fydd prosiect yn ffitio'n dwt gydag un dosbarthwr penodol. Bydd pobl hwyrach yn gorfod ymgeisio am wahanol rannau o'r cyllid a hynny i ddosbarthwyr gwahanol, sydd â gwahanol ffurflenni a phrosesau, neu hwyrach na fyddant yn gallu ymgyrraedd at gyllid o gwbl, a bydd prosiectau da yn methu am iddynt syrthio drwy'r gagendor.

4.26 Bwriadwn ei gwneud yn haws ymgeisio am gyllid. Bydd llawer o'r cynigion a osodir mewn mannau eraill yn y papur hwn yn helpu, megis cael un drws ffrynt. Er enghraifft, y dosbarthwr newydd fydd galwad gyntaf ymgeiswyr newydd a fydd yn gofyn am gyngor neu arweiniad, neu'r rheiny sy'n ansicr i ble i fynd, a'r dosbarthwr hwnnw fydd yn arwain datblygiad y rhwydwaith magu cymhwyster i wneud ceisiadau llwyddiannus mewn cymunedau ledled y DU. Drwy ddyblu terfyn uchaf Dyfarniadau i Bawb a'i godi i £10,000, bydd yn haws i gymunedau fanteisio ar gyllid y Loteri a bydd gan y cynllun micro-grantiau peilot y potensial i ymgyrraedd at grwpiau lleol a chymunedau na chafodd gyllid Loteri o'r blaen. Gosodir y cynigion eraill sy'n perthyn yn uniongyrchol i'r broses ymgeisio isod.

4.27 Neges arall a'n cyrhaeddodd wrth ymgynghori oedd dyhead pobl i gyrraedd cyllid Loteri ynghynt. Roedd yn eglur bod amser asesu cais yn amrywio yn dibynnu ar ei bwrpas, ond rydym am fyrhau'r amser ar gyfer grantiau bychain, uniongyrchol. Mae gwelliannau mawrion yn bosibl. Er enghraifft, trawsnewidiodd Cyngor Celfyddydau Lloegr eu dull o roi grantiau – grantiau uniongyrchol a rhai'r Loteri, drwy gael ffurflenni cais symlach a thrwy benderfynu arnynt ynghynt. Maent wedi medru gwneud penderfyniadau ymhen 6 wythnos ar gyfer dyfarniadau hyd at £5,000 a 12 wythnos hyd at £100,000. Rydym am gyflymu penderfyniadau holl grantiau'r Loteri, ond yn enwedig gyda grantiau bychain.

Er enghraifft, bydd cynllun newydd Dyfarniadau i Bawb yn byrhau ei gyfnod penderfynu, sy'n 12 wythnos ar hyn o bryd, ac rydym am i'r cynllun peilot micro-grantiau ddanfon pres allan ynghynt na hynny.

Safoni ffurflenni cais

4.28 Mae ffurflenni cais gwahanol ddosbarthwyr yn cyfeirio'n aml at bethau tebyg yn eu hanfod ond eu bod yn defnyddio geiriau gwahanol i'w disgrifio, neu'n ceisio yr run math o wybodaeth (e.e. am y sawl fydd yn elwa, statws elusennau, ayb) ond ni chafodd y gofynion gwybodaeth craidd hyn eu safoni o gwbl. Roedd pobl a ymatebodd i'n papur ymgynghorol yn galw am safoni mwy o ffurfleni cais Loteri gwahanol ddosbarthwyr, gan ofyn am wedd debyg, strwythur tebyg a therminoleg gyffredin. Mae dosbarthwyr eisoes yn gweithredu i gyflawni hyn.

Safonau cyffredin gwasanaeth

4.29 Bydd dosbarthwyr hefyd yn mabwysiadu siarter gofal cwsmeriaid cyffredin a bydd ar gael ym mhob pecyn cais. Bydd y siarter yn sicrhau bod ymgeiswyr yn derbyn y gwasnaeth gorau posibl, gan ymrwymo dosbarthwyr i fod yn gyrraeddadwy, yn deg ac yn dryloyw. Sail y siarter fydd dogfen fwy manwl "Safonau Gwasanaeth Cyffredin" a gyhoeddir ar wefannau dosbarthwyr. Bydd y ddogfen yn rhoi manylion am y camau y bydd dosbarthwyr yn eu cymryd i sicrhau eu bod yn ymrwymo: i gydweithio effeithiol rhwng dosbarthwyr; i dryloywder mewn prosesau a gweithredoedd; i lefelau derbyniol o gyfathrebu â'r ymgeisydd; i gefnogaeth effeithiol ymgeisydd o gychwyn y broses ymgeisio hyd benderfyniad ar y grant, ac wedi hynny os bydd angen.

Trefn gwyno gyffredin

4.30 Weithiau bydd pobl yn teimlo'n flin nid yn unig am na chawsant grant, ond hefyd am y dull annerbyniol y'i cawsant neu y cafodd eu cais ei drin. Hwyrach bod hyn oherwydd iddynt dderbyn rhesymau annigonol am gael eu gwrthod, neu am iddynt gael eu harwain i gredu y byddent yn debyg o lwyddo. Ar hyn o bryd, mae rhai dosbarthwyr yn rhoi'r hawl i ymgeiswyr gael arolwg allanol annibynnol o'r penderfyniadau a wnaed, tra nad yw eraill yn gwneud hynny. Yn y dyfodol, bydd dosbarthwyr yn gosod trefn gwyno sy'n gyffredin rhyngddynt. Bydd y drefn hon i'w gweld yn eglur mewn dogfen gyhoeddus. Am y tro cyntaf, bydd hyn yn rhoi'r hawl i ymgeiswyr gael eu cais wedi ei ystyried gan arolygydd allanol annibynnol, tebyg i ombwdsmon. Bydd ymgeiswyr yn parhau i gael yr hawl i ddwyn eu hachos drwy eu Haelod Seneddol, at Ombwdsmon y Senedd.

5. Bod yn fwy effeithiol

Lleihau arian sy'n weddill

5.1 Mae pryder eang am swm y pres a godwyd gan y Loteri at achosion da nas dosbarthwyd hyd yn hyn. Mae gagendor yn aml rhwng dyfarnu grant i brosiect neu fudiad, a bod mewn sefyllfa i ddefnyddio'r arian, oherwydd yr amser a gymer i gychwyn prosiectau. Ond weithiau gall fod cryn oedi. Mae dosbarthwyr yn gwybod bod hyn yn digwydd ac maent yn cynllunio ar ei gyfer pan fyddant yn dyfarnu grantiau. Maent yn addo mwy o bres i brosiectau nag sydd ganddynt yn y banc, gan wybod y byddant yn parhau i dderbyn incwm, felly bydd cyllid ar gael erbyn yr hawlir y grant. Er enghraifft, ar ddiwedd Mawrth 2003 roedd lefel ymrwymiad y dosbarthwyr drwyddi draw yn fwy na £4.2 biliwn – mwy na £1 biliwn yn fwy na chyfanswm arian gweddill Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF).

5.2 Fodd bynnag, credwn y gellir cyfiawnhau peth o'r pryder am swm yr arian sy'n weddill. Rhaid i ddosbarthwyr sicrhau y bydd digon o bres ganddynt mewn llaw yn y dyfodol i gwrdd â'r ymrwymiadau a wnaethant eisoes. Ond mae disgwyl rhesymol ganddynt y bydd mwy o bres ar gael bob blwyddyn i gwrdd ag ymrwymiadau newydd. Dyna bwysigrwydd ein haddewid i'r achosion da sy'n bodoli eisoes, hyd 2009. Gall dosbarthwyr gynllunio at y dyfodol yn hyderus. Er bod gwirionedd yn y ffaith bod llog a enillir ar y pres hwnnw yn cael ei ychwanegu at yr arian sydd ar gael i'w ddosbarthu rhwng yr achosion da, mae hefyd yn wir nad yw'r arian sy'n sefyll yn yr NLDF yn mynd allan er budd y gymuned.

5.3 Am y rheswm hwnnw, ym mis Mawrth 2002, cytunodd dosbarthwyr i geisio haneru'r pres sy'n weddill ac yn cael ei gadw yn yr NLDF (a oedd bryd hynny tua £3.6 biliwn) erbyn 2004. Maent wedi llwyddo i raddau: erbyn diwedd Ebrill 2003 roedd yr arian sy'n weddill wedi lleihau rhyw wythfed ran, i £3.17 biliwn, ei lefel isaf ers dros bum mlynedd a hanner. Disgwyliwn weld gostyngiad pellach yn erbyn y targed erbyn y flwyddyn nesaf, ond mae'n annhebyg y caiff ei gyrraedd yn llwyr. Felly er bod rhywfaint o symudiad, mae'r gostyngiad yn rhy araf.

5.4 Rydym felly yn cymryd dau gam allweddol i'w gwneud yn haws rhoi arian i brosiectau'r Loteri ynghynt, tra'n sicrhau bod lefel cyllid nas gwariwyd (gweddill yr NLDF) a gedwir gan bob dosbarthydd yn cyrraedd cydbwysedd rhwng anghenion y cymunedau i fedru cyrraedd cyllid y Loteri gyn gynted â phosibl, ac anghenion busnes dosbarthwyr y Loteri, sydd yn rhaid iddynt reoli cyllid gyda chywirdeb.

Gorchmynion Ariannol Adolygedig

5.5 Y cyntaf o'r camau hyn yw adolygu'n sylfaenol y Gorchmynion Ariannol sy'n rheoli sut y mae dosbarthwyr yn trin arian y Loteri, i sicrhau eu bod yn gyson gydag anghenion newidiol y Loteri. Dim ond yn raddol y datblygodd y dogfennau presennol o'r rhai a luniwyd pan gychwynnodd y Loteri, cyn cael unrhyw brofiad o ymarferoldeb dosbarthu cyllid i brosiectau. Felly yn naturiol, yn ofalus y lluniwyd hwy, gyda'r pwyslais ar fod yn ofalus gyda'r cronfeydd. Ond ni ddylai'r angen i sicrhau rheolaeth ariannol dda lesteirio creadigrwydd wedi'i reoli'n gywir, na datblygiad a gweithrediad rhaglenni cyllido.

5.6 Mae adolygiad y Gorchmynion Ariannol yn yr arfaeth, ac mae pwyslais hwnnw ar roi cymaint o hyblygrwydd i ddosbarthwyr ag sy'n bosibl, gan osgoi ailadrodd y rheoliadau sy'n bodoli mewn cyd-destunau swyddogol eraill (megis Cyfrifo'r Llywodraeth). Wrth wneud hyn, bwriad y Llywodraeth yw cyflymu rhoi pres i brosiectau llai a llai eu risg, a chynyddu ymatebolrwydd y Loteri. Dylai hyn hwyluso'r syniad bod y Loteri yn ffynhonnell dyfeisgarwch. Byddwn yn cyhoeddi Gorchmynion Ariannol a luniwyd er mwyn symud y rhwystrau rhag methu trosglwyddo cyllid i dderbynwyr grantiau a thrwy hynny byddwn yn cynyddu ymatebolrwydd y Loteri.

Canllaw rheolaeth ar arian sy'n weddill

5.7 Dylai'r ail gam allweddol gynhyrchu manteision yn fuan. Gan dderbyn bod y cynnydd wedi bod yn araf hyd yn hyn, credwn y bydd yn help yn awr i gyhoeddi canllaw i holl ddosbarthwyr y Loteri ar sut i gyflymu cyllido prosiectau, a gwneud dosbarthwyr yn gyfrifol yn unigol am osod targedau tynn ar gyfer lefelau'r arian sy'n weddill ganddynt. Bydd hyn yn caniatáu bod targedau priodol yn cael eu gosod i bob corff, am fod gan bob un anghenion busnes gwahanol. Dylai'r targedau a osodir gynrychioli'r isafswm arian gweddill sydd ei angen er mwyn sicrhau arian pob corff o fewn rheswm, a'r amcan unwaith eto fyddai peri i gyllid y Loteri gyrraedd cymunedau sydd â'i angen arnynt lawer ynghynt. Bydd gofyn i bob dosbarthwr adrodd am darged ei arian sy'n weddill, ac am y cynnydd yn erbyn y targedau hynny yn ei adroddiad a'i gyfrifon blynyddol. Rhaid i'r rhesymeg sydd y tu ôl i'r targedau hyn fod yn gadarn, ac fe'i hastudir yn fanwl gan y DCMS.

5.8 Yn dilyn trafodaethau rhwng y DCMS a'r Swyddfa Gyfrifo Genedlaethol, mae'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnig archwilio rheolaeth ar yr arian sy'n weddill a fydd yn rhoi gwybodaeth iddo am y broses hon.

Llog ar arian y Loteri sy'n weddill

5.9 Ond nid yw targedau yn unig yn ddigon. Yn ôl y trefniadau presennol, mae'r dosbarthwyr hynny sydd â'r swm mwyaf o arian wrth gefn yn ennill y llog mwyaf at eu hachosion da. Tra nad dyna'r rheswm pennaf am lefelau uchel arian yr NLDF sy'n weddill, mae hyn yn gymhelliant rhyfedd i ddosbarthwyr i gadw pres sy'n weddill. Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth i symud y cymhelliant hwn i gadw arian sy'n weddill ymaith. Bydd y ddeddfwriaeth yn sicrhau bod llog ar arian sy'n weddill yn y dyfodol yn cael ei rannu i'r un cyfraddau ag yr enillir y pres drwy gêmau'r Loteri, ac ni chyfeirir ef at y rhai sydd yn cadw'r symiau pres mwyaf sy'n weddill.

Mesurau eraill posibl

5.10 Hwyrach y bydd angen mynd ymhellach. Rydym hefyd yn cymeradwyo y dylem ddeddfu er mwyn creu pŵer wrth gefn i ostwng arian sy'n weddill lle bydd yn ymddangos yn ormod, a'i ail-ddosbarthu i achosion da eraill yn ôl y cyfraddau arferol. Yr Ysgrifennydd Gwladol fyddai'n gallu ymarfer y pŵer hwn, drwy ymgynghori â'r gweinyddiaethau a ddatganolwyd, ac wedi trafod gyda'r dosbarthwr arbennig ac wedi dadansoddiad a chyhoeddiad y rhesymau amdano. Rydym yn gofyn am farn pobl ar sut y dylid llunio'r pŵer hwn.

5.11 Rydym hefyd yn ceisio barn ar a ddylem gyflwyno darpariaeth otomatig "rhedeg-drosodd" y gellid, o ganlyniad iddo, ailgylchu arian sy'n weddill ac a gronnwyd, sydd yn fwy na chyfradd incwm y Loteri y flwyddyn gynt, yn otomatig i gronfeydd dosbarthwyr eraill, gan ddilyn y cyfraddau arferol. Dyma gynigion radical, a gellid dadlau y gallent mewn rhai amgylchiadau ostwng canrannau'r cyfraniadau at achosion da (yr ydym wedi addo peidio â newid, felly rydym yn ymgynghori'n eang).

Dyfeisgarwch a rheoli risg

5.12 Yn y papur ymgynghorol a gyhoeddwyd gennym y llynedd, roeddem yn gwahodd adwaith i'r syniadau y dylai'r Loteri fod yn gronfa ar gyfer dyfeisgarwch; y dylid gostwng biwrocratiaeth ar gyfer prosiectau isel eu risg; ac y dylid mabwysiadu strategaethau priodol er mwyn rheoli'r mathau o risg sy'n gysylltiedig â phrosiectau cyfalaf mawrion. Ystyrir y pwynt olaf yma a chynnwys Swyddfa Fasnach y Llywodraeth a phrosesau Adolygiadau Porth y Swyddfa honno ym mharagraff 5.21.

5.13 Wrth wraidd cyllid y Loteri y mae'r dyhead i fod yn wahanol, i fod yn ddyfeisgar, i gymryd risg. Dylai prosiectau'r Loteri beri bod pobl yn gynhyrfus ac yn frwdfrydig, ennyn eu diddordeb a'u hymrwymiad, gwneud gwahaniaeth yn eu cymunedau, cymunedau eu diddordebau, eu pentref, eu tref neu eu dinas, eu rhanbarth, hyd yn oed eu cenedl gyfan. Mae cymryd risg yn golygu derbyn y gall pethau fynd o chwith. Ni fydd pob prosiect Loteri yn llwyddiant. Ond mae gosod biwrocratiaeth enbyd ar brosiect mewn ymgais i ddileu risg yn ddrud ac yn araf, a gall dagu dyfeisgarwch. Rydym yn dymuno y bydd rheoli risg yn gymesur â maint y prosiectau a gyllidir, a'r derbynwyr sydd â phrofiad blaenorol ganddynt. Golyga hyn fwy o reolaeth soffistigedig ar risg ar gyfer prosiectau mawrion, a gostyngiad yn y llwyth biwrocratiaeth ar y rhai sy'n ceisio am grantiau bychain.

Rheoli prosiectau cyfalaf mawrion

5.14 Hanes llwyddiannus iawn fu hanes y Loteri Genedlaethol. Newidiodd prosiectau a gyllidwyd gan y Loteri ledled y DU ymddangosiad corfforol a diwylliannol pentrefi, trefi a dinasoedd. Yr amlycaf o'r rhain fu'r adeiladau mawrion a'r cyfleusterau – y prosiectau cyfalaf crand. Mewn amryw o achosion, cynhyrchodd statws eicon y cyfleusterau hyn effaith cadarnhaol iawn, adferol yn aml, ar yr ardal, y ddinas neu'r rhanbarth o'u cwmpas. Daeth yr adeiladau, y pontydd, y stadia, y canolfannau gwyddoniaeth, y canolfannau byw yn iach, a hyd yn oed y neuaddau pentref, yn enwog ac yn symbolau, ac mae'r defnydd a wneir ohonynt yn eithriadol.

Dysgu o brofiad

5.15 Mae yna enghreifftiau, yn enwedig yn gynnar yn hanes y Loteri, o brosiectau cyfalaf mawrion na lwyddodd. Mae'n wir bod y rhain yn y lleiafrif, ac mae'n wir hefyd na fydd pob prosiect yn llwyddiant eithriadol: os yw'r Loteri am fod yn rym er creu dyfeisgarwch, rhaid iddi gymryd peth risg. Fodd bynnag, pan fydd prosiect yn methu, mae'n cynrychioli colli'r hyn a allai hwyrach wedi bod o fantais i'r cyhoedd, a gall y cyhoedd golli hyder oherwydd hyn. Yn ychwanegol, gall yr hysbysrwydd gwael a ddenir gael effaith anghyfartal ar sut y gwêl y cyhoedd y Loteri.

5.16 Dysgwyd gwersi anodd, o fewn y Llywodraeth yn ogystal ag o fewn y Loteri, am asesu a rheoli prosiectau cyfalaf mawrion. Rhaid i ni sicrhau bod holl bartneriaid prosiectau mawrion yn deall yn glir eu cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau i bartneriaid eraill. Mae angen pendantrwydd y gall y partneriaid fynd yn eu blaenau, a lle bo pres y Loteri yn gysylltiedig, rhaid i'r prosiect fod yn ychwanegiad ac yn arbennig, a rhaid i'r cyhoedd fod ynghlwm wrth ddiffinio ei ddyheadau a'i amcanion. Mae'n hollbwysig bod y gwersi a'r profiad yn cael eu cadw a'u rhannu er mwyn lleihau risg methiant prosiectau yn y dyfodol: dyna'r rheswm dros y cynigion yn y papur hwn ar rannu ymarfer gorau wrth reoli prosiectau cyfalaf mawrion.

5.17 Ond bu llwyddiannau mawrion hefyd. Gyferbyn â Wembley a'r Dôm rhaid i ni osod yr Eden Project, y Tate Modern a Phont y Mileniwm yn Gateshead. Dysgwyd gwersi gan y rhain hefyd. A thra bo rhan o'n hyder wrth wneud ymgais ar i'r Chwaraeon Olympaidd ddod i Lundain yn 2012 yn deillio o lwyddiant Chwaraeon y Gymanwlad, mae rhan hefyd ohono'n deillio o'r profiad a gawsom gyda Wembley a'r Dôm yn gymaint ag Eden a'r Tate Modern.

5.18 A rhaid cadw cydbwysedd rhwng rheolaeth gall ar risg a thagfa dyfeisgarwch. Prif amcan y Loteri fydd darparu cronfa ddyfeisgarwch cymunedau, ac ni ddylai unrhyw rai o'r mesurau a osodir allan isod dynnu oddi ar yr amcan hwnnw.

5.19 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod dosbarthwyr y Loteri wedi crynhoi cyfoeth o brofiad wrth reoli prosiectau bach a mawr ers iddynt gael eu sefydlu. Mae'n hanfodol rhannu'r profiad hwn a'i ddefnyddio er lles. Byddai hefyd yn ddymunol iawn sicrhau bod y wybodaeth a enillwyd gan Gomisiwn y Mileniwm yn ystod ei swyddogaeth wrth greu amryw o'r prosiectau mwyaf, yn dod yn rhan o'r ymwybyddiaeth gydweithredol sydd gan ddosbarthwyr y Loteri unwaith y dilëir y Comisiwn.

Swyddogaeth y dosbarthwr newydd ar brosiectau cyfalaf mawrion

5.20 Bydd y corff newydd, sef y dosbarthwr mwyaf a'r gallu ganddo i ymgyrraedd at 50% o incwm y Loteri, yn gallu chwarae rhan amlwg ymhlith cyrff eraill y Loteri. Rydym yn cynnig felly bod y corff hwn yn cael sawl tasg allweddol gyda phrosiectau mawrion ym myd dosbarthiad y Loteri wedi iddo gael ei ail-lunio. Bydd yn:

- rheoli'r broses adolygu ac yn dyrannu pres y Loteri i'r prosiectau mawrion hynny nad ydynt yn ffitio i ofynion penodol dosbarthwyr eraill, ond a fydd yn adfywio cymunedau na allent gael eu hariannu fel arall. Yn y ffordd hon, bydd yn cymryd cyfrifoldebau Comisiwn y Mileniwm o ran gweledigaeth a dyfeisgarwch;
- dwyn ynghyd ddosbarthwyr eraill lle bydd prosiectau trawstorri yn cynnwys elfennau a fyddai'n syrthio'n naturiol i ddosbarthwyr eraill, ac yna'n rheoli'r broses adolygu a dyrannu cyllid Loteri i'r prosiectau hyn; ac yn
- gweithredu yn ganolfan ardderchowgrwydd, cyngor ac arbenigedd a rennir wrth reoli prosiectau mawrion, ac a fydd ar gael i'r holl ddosbarthwyr, a thrwyddyn nhw i'r prosiectau unigol.

5.21 Wrth sefydlu'r swyddogaethau hyn, byddwn yn sicrhau bod prosesau arfarnu a rheoli prosiectau mawrion y Loteri yn gyfwerth â phrosesau Adolygiadau Porth Swyddfa Fasnach y Llywodraeth (OGC). Dangosodd profiad i ni y dylem gael adolygiadau allanol annibynnol er mwyn sicrhau hyfywdra prosiectau yn y camau allweddol rhwng eu datblygu a'u dwyn i'w terfyn. Y nod fydd i'r ganolfan ardderchowgrwydd gyfrannu'n weithredol yn natblygiad y swyddogaeth hon drwy ymgynghori â'r OGC. Yn y modd hwn, bydd adnoddau prin yr OGC yn gallu cael eu defnyddio i'r eithaf.

5.22 Fodd bynnag, nid ydym am ail-ddyfeisio'r olwyn mewn achosion lle mae gan ddosbarthwyr brosesau wedi eu sefydlu eisoes. Byddwn felly'n gofyn i ddosbarthwyr gydweithio â'r canolfannau ardderchowgrwydd er mwyn:

- rhannu ymarfer da
- gwneud cyfrif o'r systemau presennol i sicrhau eu bod yn gyson ac yn effeithiol
- ystyried sefydlu achrediad ffurfiol ar gyfer y systemau hynny, os mai dyma fydd llwybr yr OGC.

Bydd canolfan ardderchowgrwydd y Dosbarthwr newydd yn cydweithio'n agos â'i weithiwr cyferbyniol yn y DCMS i sefydlu ei swyddogaeth.

5.23 Bydd y prosesau adolygu hyn yn berthnasol i'r holl brosiectau mawrion neu uchel eu risg. Bydd OGC yn darparu cyngor i ddosbarthwyr ar fynediad priodol drwy gyfrwng canolfan ardderchowgrwydd y DCMS ei hunan a fydd yn cydlynu â rhai dosbarthwyr Loteri eraill a'r OGC fel y bydd yn briodol er mwyn sefydlu timau adolygu prosiectau. Y nod yw sicrhau bod y prosiectau mwy o faint yn llwyddo.

Prosiect cyfalaf llai

5.24 Bydd pob dosbarthwr yn delio â gwahanol fathau o brosiectau, gydag amrywiaeth eang o glientiaid. Bydd angen i bob un ohonynt felly sefydlu mynedfeydd priodol er mwyn dweud ymhle y dylid gweithredu'r prosesau hyn. Ni ddylent fod yn rhwystr i ddyfeisgarwch, nac i brosiectau bychain. Byddwn yn defnyddio adolygiad y Gorchmynion Ariannol y cyfeirir atynt ym mharagraff 5.6 i symleiddio gofynion dosbarthwyr oddi wrth brosiectau, ac i gefnogi cymryd risg o dan reolaeth mewn perthynas â phrosiectau llai. Byddwn yn defnyddio nifer cyfyngedig o archwiliadau manwl ar dderbynwyr dyfarniadau bychain, er mwyn gwirio lefelau camddefnydd a gwerth am arian. Byddwn yn dal i adolygu'r trefniadau hyn ac yn ymollwng gofynion ymhellach os dadleuir dros hynny.

6. Ymgynghori a thabl cynigion polisi

Pwyntiau i ymgynghori arnynt

Mae mwyafrif y cynigion a osodir yn y papur hwn yn argymhellion pendant. Gall rhai ohonynt gael eu gweithredu ar fyrder, a chychwynnwyd gwaith eisoes ar rai newidiadau gweinyddol allweddol. Bydd yn rhaid deddfu gogyfer â chynigion eraill cyn eu gweithredu. Ond mae meysydd eraill yr hoffem ymgynghori ymhellach yn eu cylch cyn penderfynu'n derfynol arnynt.

Rhoddir rhestr o'r cynigion a osodir yn y papur hwn yn y tudalen nesaf. Gwahoddwn sylwadau ar unrhyw gynnig, ond yn benodol yn y meysydd yr ydym yn dal i feddwl amdanynt.

Amserlen Deddfwriaeth

Byddwn yn deddfu'n gynnar er mwyn gweithredu'n cynigion polisi ar y cyfle cyntaf a gawn.

Sylwadau ar ein cynigion

Gwahoddwn sylwadau ar ein cynigion sydd yn gynwysedig yn y papur hwn. Bydd y cyfnod ymgynghori yn parhau hyd 31 Hydref 2003.

Byddai'n well gennym dderbyn y sylwadau hyn ar e-bost, os yw'n bosibl mewn *rich text format* neu MS Word.

Dylid danfon y sylwadau hynny at lotteryfunding@culture.gsi.gov.uk

Danfoner sylwadau ysgrifenedig at:
Rachel Miller,
Review of National Lottery Funding,
Department for Culture, Media and Sport,
2-4 Cockspur Street,
LONDON SW1Y 5DH.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Reoleiddio cychwynnol ynghlwm wrth y papur hwn a chroesawn sylwadau ar hwn hefyd.

Yn ôl cod ymarfer llywodraethu'n agored, gall unrhyw ymatebion gael eu cyhoeddi neu eu danfon i drydydd partïon os gofynnir amdanynt. Dylai'r sawl sy'n ymateb felly ddangos yn glir os dymunant i unrhyw ran (neu'r cyfan) o'u hymateb ddal yn gyfrinachol.

Tabl Cynigion Polisi

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi ein prif gynigion polisi
(*sy'n dangos lle mae gofyn cael deddfwriaeth)

Rhif y Paragraff	Cynnig
2.7–2.9, 3.6	Byddwn yn cadw egwyddor "ychwanegoldeb" gyda dosbarthwyr presennol a'r corff newydd
2.11	Cyllid gan y dosbarthwr newydd: grantiau agored
2.13	Cyllid gan y dosbarthwr newydd: cyllid mentrau strateg
2.15	Cyllid gan y dosbarthwr newydd: grantiau trawsnewidiol
2.16	Sefydlir Cronfa Pobl Ifanc
2.17	Sefydlir* Cronfa Olympaidd
2.18	Dyblir uchafswm rhaglen Dyfarniadau i Bawb (Lloegr) hyd at £10,000
2.19	Sefydlir rhaglen beilot micro-grantiau
3.3	Caiff dosbarthwr cymunedol newydd ei greu drwy gyfuno'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd *
3.3	Gall y dosbarthwr newydd drin cronfeydd pres nad ydynt yn rhai'r Loteri
3.8	Y dosbarthwr newydd i ddarparu un pwynt mynediad i ymgeiswyr newydd lle bo angen ac i weithredu llinell ffôn gymorth a gwefan ar ran pob dosbarthwr
3.9	Y dosbarthwr newydd i gynnig man cyntaf ymgeiswyr nad yw eu prosiectau'n ffitio o fewn amodau gorchwyl dosbarthwyr eraill
3.10	Y dosbarthwr newydd i ddatblygu gwasanaeth cefnogol cyn-ymgeisio ac i arwain ar gyflwyno ffurflen gyn-ymgeisio, gan gyflwyno protocol ymgeisiadau rhyng-ddosbarthwyr a datblygu rhwydwaith i adeiladu cymhwyster a chynghori ymgeiswyr
3.12	Y dosbarthwr newydd i arwain ar hybu a hysbysu'r achosion da
3.15	Trosglwyddir asedion a chyfrifoldebau Comisiwn y Mileniwm i'r dosbarthwr newydd*
3.16	Canolfan ardderchowgrwydd, cyngor ac arbenigedd a rennir ar reoli prosiectau cyfalaf mawrion
3.17	Rheoli prosiectau sy'n trawstorri
3.19	Fforwm Loteri newydd
4.4	Logo'r bysedd croes i'w ddefnyddio i ganfod prosiectau a gyllidir gan y Loteri
4.7	Sefydlir Cyd-Uned Hybu yn rhan o'r dosbarthwr newydd*
4.9	Creu Diwrnod y Loteri Genedlaethol
4.13	Dosbarthwyr i ymestyn eu gwaith ar gynnwys y cyhoedd fwyfwy wrth osod blaenoriaethau
4.16	Y dosbarthwr newydd i arloesi gyda ffyrdd o ymgynghori â phobl leol am benderfyniadau lleol
4.17	Cyd-Uned Hybu i ystyried syniadau dyfeisgar i gynyddu cyfraniad y cyhoedd at y broses benderfynu
4.20	Y Llywodraeth i ystyried dewisiadau er mwyn rhoi dylanwad amgenach i weinyddiaethau Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon ar sut i wario arian y Loteri
4.23	Datganoli datblygiad rhaglenni a phenderfynu i'r dosbarthwr newydd gyn belled ag y bo modd ac y bo'n briodol
4.27	Safoni ffurflenni cais y Loteri yn fwy rhwng dosbarthwyr

Rhif y Paragraff	Cynnig
4.28	Dosbarthwyr yn mabwysiadu cyd-siarter gofal cwsmeriaid
4.29	Dosbarthwyr yn mabwysiadu trefn gwyno gyffredin
5.5	DCMS i gynhyrchu cyfarwyddiadau ariannol diwygiedig, symlach
5.7	DCMS i gynhyrchu canllawiau ar sut i reoli gweddillion
5.8	NAO i gynnal archwiliad ar sut mae gweddillion yn cael eu rheoli
5.9	Llog ar arian sy'n weddill a gedwir yn NLDF yn cael ei roi yn ôl canran rhaniad safonol rhwng achosion da*
5.10 & 5.11	Creu pwerau wrth gefn i ostwng gormod o arian sy'n weddill a'i ail-ddosbarthu at achosion da eraill
5.20	Y dosbarthwr newydd fydd yn ganolfan ardderchowgrwydd, cyngor ac arbenigedd a rennir ar reoli prosiectau mawrion, gan gynnwys gweithredu'n gydlynydd cyllid prosiectau mawrion sy'n trawstorri
5.21	Dylai prosesau ar gyfer prosiectau cyfalaf mawrion fod yn gyfwerth â rhai adolygiadau'r OGC
5.24	Symleiddio strwythurau ar gyfer prosiectau sydd â'u risg yn llai

Atodiad A: Asesiad o'r Effaith ar Reoleiddio

1.Teitl y cynnig

Dogfen Penderfynu ar Gyllid y Loteri Genedlaethol

2. Pwrpas ac effaith arfaethedig y mesur

(i) Amcan

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys cynigion y Llywodraeth ar sut i newid dosbarthiad pres y Loteri. Mae hefyd yn cynnwys pwyntiau penodol y dylid ymgynghori ymhellach arnynt. Nid yw'r Llywodraeth yn rhagweld unrhyw newidiadau i gysyniad sylfaenol y Loteri Genedlaethol, a rhoddodd ymrwymiad y byddai canran y siâr o bres y Loteri at achosion da sydd yn mynd i'r celfyddydau, chwaraeon, treftadaeth a'r sector wirfoddol yn sefyll o leiaf ar yr un lefelau ag y maent ar hyn o bryd hyd 2009.

Mae'r cynigion hyn yn ymateb i'r ymgynghoriad - *Adolygiad o Gyllid y Loteri* - a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2002. Edrychodd yr ymgynghoriad hwnnw ar bedwar prif faes y gellid eu gwella:

- Gwneud y Loteri yn fwy ymatebol i anghenion a blaenoriaethau cymunedau
- Sicrhau bod cyllid yn cael ei ddosbarthu yn deg i'r holl ardaloedd a chymunedau ledled y DU
- Rheoli her arbennig cyllid y Loteri
- Gwneud dosbarthiad cyllid y Loteri yn fwy effeithiol ac effeithlon.

Mae'r cynigion sydd yn y ddogfen hon yn dwyn yr argymhellion yn eu blaenau yn yr ymateb hwnnw drwy ganolbwyntio ar bolisi wedi ei anelu at gyflawni tri phrif welliant:

- Bod yn gynyddol yn fwy agored, yn fwy cyrraeddadwy, a chynnwys mwy o gyfraniad y cyhoedd
- Trawsnewid ac ysbrydoli, yn genedlaethol ac yn lleol
- Dyfeisgarwch wrth feddwl, wrth weithredu ac wrth hybu ymdrech wirfoddol.

Datganoli: Ar hyn o bryd, mae'r cynigion yn y ddogfen hon ar gyfer y DU yn gyfan. Ein barn dros dro y dylem gadw strwythur y DU ar gyfer dosbarthu, ond y dylai gweinyddiaethau datganoledig Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon gael mwy o ddylanwad wrth osod blaenoriaethau a strategaethau penodol, gan ystyried anghenion a dyheadau cymunedau lleol a darparwyr gwasanaethau yno. Mae hyn yn agored i ymgynghori pellach a byddwn yn deddfu i gyflawni hyn os bydd angen.

(ii) Cefndir

Dangosodd ymgynghori blaenorol bod dyhead am weld gwahaniaeth i'r modd y dosberthir pres y Loteri.

Er bod system ddosbarthu'r Loteri yn sylfaenol gadarn, erys rhai meysydd yn rhai y gellid eu datblygu ymhellach, a chan y bydd cyfnod y drwydded bresennol yn dirwyn i ben yn 2009, dyma'r amser cywir i wneud gwelliannau o'r fath.

Mae angen moderneiddio dosbarthiad y Loteri, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddwyn i'r eithaf fanteision y pres at achosion da. Er bod y cyrff dosbarthu presennol yn gwneud gwaith da, mae pryder ynghylch twf aneffeithlondeb oni bai fod gwell synergedd yn cael ei greu o fewn y system, a fydd yn cael effaith waeth ar y mudiadau hynny sydd â'r potensial ganddynt i ddefnyddio cyllid y Loteri. Drwy wneud y broses ymgeisio yn haws, bydd cyllid yn fwy cyraeddadwy i'r mudiadau hynny sydd ei angen. Y mae yna feysydd lle gallai cynyddu cydweithrediad rhwng dosbarthwyr ddileu'r potensial o fod yn aneffeithlon yn y mân feysydd hynny lle mae'r cyrff dosbarthu yn gweithio. Yn olaf, mae perygl y bydd y cyhoedd yn teimlo eu bod yn gynyddol ddatgysylltiedig oddi wrth y mannau y dosberthir eu pres iddynt.

Mae Deddfau Loteri 1993 a 1998 wedi gosod y fframwaith y sefydlwyd Loteri'r DU ynddo. Mae gorchmynion polisi'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cydredeg â'r ddeddfwriaeth hon. Mae'r ddeddfwriaeth ar hyn o bryd yn sefydlu'r meysydd ddylai fanteisio ar y Loteri, yn sefydlu sut y rhennir Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol (NLDF) rhwng yr achosion da hynny, yn sefydlu darpariaeth taliadau o'r NLDF am gostau ac am fuddsoddi'r cyllid ynddi, darpariaeth ar reolaeth trwydded y gweithredydd, pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol a nifer a ffurf y cyrff dosbarthu.

Mae'r Llywodraeth yn teimlo bod angen newid y ddeddfwriaeth hon er mwyn datrys problemau presennol y system ddosbarthu. Bydd angen deddfwriaeth ar gyfer y newidiadau hanfodol er mwyn gwella, trawsnewid a dyfeisio system. Bydd hyn yn bennaf yn cynnwys creu dosbarthwr newydd wrth gyfuno'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, ond bydd hefyd yn galluogiŵ'r holl ddosbarthwyr i fedru dosbarthu cyllid heblaw cyllid y Loteri; bydd yn sefydlu Cyd-Uned Hybu barhaol; yn galluogi i'r llog ar arian sy'n weddill sy'n cael ei gadw yn yr NLDF gael ei rannu yn ôl y ganran rhaniad safonol rhwng achosion da; yn creu pŵer wrth gefn i leihau gormod o arian sy'n weddill a'i ail-dosbarthu i achosion da eraill yn ôl y cyfraddau arferol; ac yn sefydlu Cronfa Olympaidd.

(iii) Asesu Risg

Os na wnawn rywbeth i adfywio'r system bresennol, drwy wella effeithlonrwydd, symlrwydd a thryloywder er enghraifft, mae yna risg y byddwn yn colli'r potensial i gael y cyllid hyd eithaf ein gallu ar gyfer achosion da. Dangosodd profiad ledled y byd bod diddordeb mewn Loterïau yn dirywio wedi iddo gyrraedd uchafbwynt cynnar. Bu gostyngiad graddol yn y gwerthiant yn y DU ond nid ydym yn derbyn na ellir gwrthdroi'r gostyngiad hwn. Fodd bynnag, teimlwn fod angen diweddaru dipyn ar y system. Byddai gwell synergedd yng ngwaith y cyrff dosbarthu ynghyd â mwy o gyfraniad y cyhoedd yn rhwystro'r dirywiad i botensial incwm y Loteri. Ystyriodd y Llywodraeth hefyd botensial risg y gallai'r gweithredu a gynigiwn fethu. Ystyriwn mai risg fechan iawn yw hon, yn enwedig oherwydd yr ymdrechion presennol a wneir gan y dosbarthwyr i dalu sylw i'r diffygion yn y system.

3. Dewisiadau

Mae'n ymddangos bod tri dewis:

Dewis 1: Gwneud dim – *Dibynnu ar y ddeddfwriaeth bresennol*

Mae dewis gwneud dim a dibynnu ar y ddeddfwriaeth bresennol ac ymarferion presennol. Fodd bynnag, wrth i'r Loteri aeddfedu, byddai'n anodd iddi aros yn llwyddiannus heb foderneiddio dull dosbarthu pres y Loteri.

Dewis 2: *Gweithredu cynigion heb ddeddfwriaeth*

Dewis arall fyddai cyflawni nod yr adolygiadau heb ddeddfwriaeth. Cydnabyddwn tra'i bod yn beth da cadw deddfwriaeth yn isel, mae rhai cynigion angenrheidiol ag angen deddfwriaeth arnynt cyn y gellir eu gweithredu. Gellid gwneud rhai newidiadau gweinyddol, ond ni ellid cyflawni'r cynigion allweddol megis uno'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, sefydlu'r Gyd-Uned Hybu a newidiadau i'r arian sy'n weddill, heb ddeddfwriaeth.

Dewis 3: *Cyflwyno Mesur i sefydlu dosbarthwr newydd a ffyrdd o greu mwy o gydweithio*

Bydd y cynnig hwn yn moderneiddio'r dull y dosberthir pres y Loteri. Bydd yn gweithredu adolygiadau deddfwriaethol a rhai heb fod yn ddeddfwriaethol er mwyn gwella prosesau, adolygu grantiau, cynyddu effeithlonrwydd a hybu dyfeisgarwch. Bydd hyn yn dwyn manteision hir-dymor i amryw grwpiau; gan gynnwys cyrff dosbarthu, elusennau, mudiadau gwirfoddol, hapchwaraewyr y Loteri a chymunedau.

Argymhellwn weithredu Dewis 3.

4. Manteision –

Dewis 1:

Ychydig fanteision y gellid eu dirnad wrth adael ffurf bresennol dosbarthiad y Loteri heb ei newid. Pwysleisiodd ymarferion ymgynghori amrywiol y Llywodraeth yr angen i wella dull dosbarthu pres y Loteri. Byddai anwybyddu'r angen hwn a pheidio â newid y system hon yn colli cyfle, a byddai'n gadael amryw o'r rhai sy'n ymgeisio am gyllid y Loteri o dan anfantais.

Dewis 2:

Cyfyng fyddai manteision gweithredu'r cynigion heb ddeddfu ar eu cyfer. Tra gallwn ac y byddwn yn gweithredu rhai o'r cynigion heb ddeddfwriaeth, bydd rhai o'r newidiadau hanfodol, er enghraifft cyfuno'r Gronfa Gymunedol a'r Gronfa Cyfloedd Newydd ag angen deddfwriaeth. Hefyd, byddai effaith y cynigion yn gyfyngedig wrth eu newid heb ddeddfwriaeth.

Byddai mantais wrth symud newidiadau ymlaen heb ddeddfwriaeth am y byddai dosbarthwyr yn arbed costau yn y tymor-byr oherwydd y cyfuno, ac oherwydd sefydlu mwy o ddulliau gweithio trawstorri. Fodd bynnag, barn y Llywodraeth yw y câi'r fantais hon ei gwrthwneud gan gostau tymor-hir peidio cael gwell system ddosbarthu.

Dewis 3:

Barn y Llywodraeth yw bod y cynigion yn y ddogfen hon yn cynnig mantais i'r sector wirfoddol ac i elusennau sy'n ceisio am gyllid y Loteri. Croesawn ymatebion a fydd yn help i ni fesur y manteision hyn. Yn fras, bydd y cynigion yn creu dull gwell a symlach y gall cymunedau gyrraedd cyllid y Loteri. Bydd dosbarthwyr hefyd yn manteisio ar yr arbedion effeithlonrwydd a geir yn sgil y newidiadau. Bydd y cynigion hyn yn sicrhau hefyd y gall y Loteri ddarparu cyllid pontio mawr a rhoi hwb i arloesi.

Bydd darpar dderbynwyr arian y Loteri yn manteisio oherwydd cynnydd yn natur gwaith-ar-y-cyd y dosbarthwr. Galluogir hyn yn arbennig gan bresenoldeb un dosbarthwr cymunedol, gan Fforwm Loteri ffurfiol a chan Gyd-Uned Hybu. Byddwn yn croesawu barn am yr amcan-gynilon a ddaw wrth symleiddio'r broses ymgeisio.

Caiff dosbarthwyr fanteision hefyd wrth gydweithio; er enghraifft, mae gobaith lleihau cost gweinyddu, a chyfuno adnoddau er mwyn ymestyn y gallu i gyd-gyflawni prosiectau mawrion. Yn benodol, rydym yn rhagweld y bydd enillion sylweddol gweinyddol i'w cael wrth gyfuno. Mae lefelau'r cynilon hyn yn anodd eu mesur am y byddant yn dibynnu ar ffurff y corff newydd. Fodd bynnag, byddwn yn dal i asesu'r manteision yn rhan o'r broses ymgynghori a byddwn yn croesawu barn pobl.

Bydd y cynigion i roi'r gallu i ddosbarthwyr rannu cyllid heblaw cyllid y Loteri yn dwyn rhai manteision i **elusennau a mudiadau gwirfoddol,** a chânt gyfle i ennill mwyafswm cyllid y Loteri drwy ei gyfuno gyda chyllid o fath arall. Eto, byddwn yn croesawu barn ar werth y cynnig hwn.

Bydd hapchwaraewyr y Loteri a'r cyhoedd yn manteisio wrth gael mwy o ddylanwad ar sut y caiff pres y Loteri ei wario, er enghraifft, drwy ddod yn rhan o'r penderfynu ynghylch y prosiectau cyfalaf mawrion neu drwy gymryd rhan mewn cynlluniau i benderfynu ar flaenoriaethau lleol. Byddwn yn croesawu barn ar y manteision a gynigir gan y cynlluniau amrywiol hyn a awgrymir gennym.

Yr effaith ar sectorau busnes

Rydym wedi ymgynghori'n helaeth ar y cynigion hyn a chawsom drafodaethau hirion gyda nifer o gyfranogion. Barn y Llywodraeth yw na chaiff y cynigion hyn fawr ddim effaith negyddol ar fusnesau bychain, mudiadau gwirfoddol, elusennau, llywodraeth leol, cyrff dosbarthu, prynwyr tocynnau, y gweithredwr (Camelot), ac y bydd y gymuned gyfan ar ei mantais oherwydd y cynigion.

Materion cydraddoldeb a thegwch

Dim ar hyn o bryd.

5. Costau –

(i) Costau cydymffurfio

Dewis 1:

Pe na bai unrhyw newidiadau i'r system bresennol wrth ddosbarthu'r Loteri, ni fyddai dosbarthwyr yn elwa o gynilon effeithiolrwydd. Hefyd, byddai cost gweinyddu i'r ymgeiswyr yn parhau a byddai hyn yn cynnwys costau i elusennau a'r sector wirfoddol.

Dewis 2:

Bydd gweithredu'r mesurau an-statudol yn dwyn rhai costau tymor-byr yn ei sgîl i'r dosbarthwyr. Er enghraifft, bydd costau cychwynnol safoni ffurflenni'r Loteri, y siarter gofal cwsmeriaid a'r drefn gwyno yn syrthio ar y cyrff dosbarthu. Archwilir hyn yn ddyfnach yn newis 3. Bydd dulliau cynnwys y cyhoedd wrth benderfynu blaenoriaethau hefyd yn cynyddu costau'r dosbarthwyr. Croesawn yr holl sylwadau ac amcangyfrifon a all ein helpu i fesur y costau hyn.

Dewis 3:

Bydd rhai costau ynghlwm wrth weithredu dewis 3 a chroesawn ymatebion a all ein helpu i fesur y costau hyn.

Amcangyfrifwn y bydd y cynigion hyn yn gosod costau yn y tymor byr ar y dosbarthwyr. Fodd bynnag, am ein bod yn dal i ymgynghori ar ffurf y dosbarthwr newydd cyfun, mae'n anodd mesur yn union faint fydd y rhain.

Rhagwelir y bydd y costau yn cynnwys: costau sefydlu'r cyfuno; costau cychwynnol sefydlu mwy o gydweithio rhwng dosbarthwyr; rhai costau ynghlwm wrth frandio'n gyffredin; cost ymgynghori i ddosbarthwyr ac ymarferion i'w galluogi i ymateb i flaenoriaethau pobl ar gyfer cyllid y Loteri. Ar ysgwyddau'r dosbarthwyr hefyd y disgynna costau cychwynnol safoni ffurflenni'r Loteri, siarter gofal cwsmeriaid, a threfn gwyno. Croesawn bob barn a phob amcangyfrif o gostau'r cynigion hyn. Bydd gan ein cynnig i ddiddymu'r symbyliad presennol rhyfedd i ddosbarthwyr i gadw pres sy'n weddill, mae'n debyg, gost i gyllid y Loteri. Bydd y cynigion yn gymorth i gyrraedd targed y dymunwyd ei gael ers tro, sef gostwng y pres sy'n weddill a danfon pres i brosiectau ynghynt. Effaith hyn nas dymunir ei gael, yw'r tebygrwydd y bydd yr incwm i'w fuddsoddi yn gostwng. Oherwydd na ellir rhagweld y buddsoddiad incwm oherwydd nifer o ffactorau, mae hyn yn ei gwneud yn anodd cyfrifo'r gostyngiad. Ymhellach, dylid nodi am fod yr NLDF yn cael ei fuddsoddi yn ei gyfanswm, ac nid fesul dosbarthwr, na fydd cyfanswm yr incwm yn cael ei effeithio gan newidiadau wrth ei rannu. Ymhellach wedyn, bydd y cynigion hyn yn gofyn am newid systemau cyfrifiaduron Comisiynwyr Gostwng y Ddyled Wladol (CRND) a nhw fydd yn cario'r gost tymor-byr unwaith-ac-am-byth a ad-delir drwy'r NLDF.

Bydd hawl digolledu peth o gost y dosbarthwyr oherwydd sefydlu'r system adolygu gan yr OCG ar brosiectau mawrion. Croesawn sylwadau ar debygrwydd beth fydd y costau hyn, yn enwedig gan grwpiau sydd â phrofiad o'r broses adolygu OCG.

6.Ymgynghori â busnesau bach

Mae diddordeb gennym gael barn busnesau bach am a ydynt yn credu y cânt eu heffeithio gan y cynigion hyn. Byddwn yn trafod yr effaith ymhellach gyda'r Gwasanaeth Busnesau Bach.

7. Asesu Cystadlu

Rydym wedi edrych ar y farchnad sy'n dosbarthu cyllid elusennol a'n barn yw na fydd ein cynnig i ganiatáu bod y corff dosbarthu newydd yn cael trin cyllid heblaw cyllid y Loteri yn effeithio ar sefyllfa'r farchnad bresennol. Fodd bynnag, byddwn yn croesawu gwybodaeth am unrhyw gorff dosbarthu preifat presennol a allai gael ei effeithio gan y cynnig hwn.

8. Gorfodaeth a gwaharddiadau

Gorfodir y cynigion hyn gan ddeddfwriaeth a gefnogir gan bwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Ni fydd y cynigion hyn yn gosod unrhyw waharddiadau ychwanegol.

9. Monitro ac adolygu

Byddwn yn monitro ac yn adolygu'r cynigion hyn cyn cyfnod nesaf trwyddedu'r Loteri sy'n cychwyn yn 2009.

10.Ymgynghori

Wrth ddatblygu'r ddogfen hon rydym wedi ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd mewn ymateb i'r papur ymgynghori – Adolygu Cyllid y Loteri. Derbyniwyd 400 ymateb gennym i'r ymgynghoriaeth gan gynnwys ymatebion y sector wirfoddol ac elusennau. Rydym wedi nodi'r argymhellion a gafwyd o ganlyniad i ymchwil ymagwedd bellach a thrwy gynnal trafodaethau gyda chynrychiolwyr sectorau penodol, gan gynnwys y sector wirfoddol a hapchwaraewyr y Loteri.
Yn ychwanegol rydym wedi ymgynghori â nifer o adrannau'r Llywodraeth.

Bydd y cynigion hyn yn destun ynghori am 12 wythnos.

Department for Culture,
Media and Sport
2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH
PP 589 Gorffennaf 2003